

## **Bwrdd Iechyd Lleol Powys**

**Adolygiad o Gynnydd  
yn erbyn Safonau Gofal  
Iechyd i Gymru –  
1 Ebrill 2007 – 31 Mawrth  
2008**

**Dyddiad: 1 Medi 2008**



## Cynnwys

	<b>Crynodeb Gweithredol</b>	<b>iii</b>
<b>1.</b>	<b>Cyflwyniad a Chyd-destun</b>	<b>1</b>
<b>2.</b>	<b>Proses Asesu 2007-08</b>	<b>5</b>
<b>3.</b>	<b>Trosolwg o Fwrdd Iechyd Lleol Powys</b>	<b>9</b>
<b>4.</b>	<b>Pa mor dda y mae Bwrdd Iechyd Lleol Powys yn cyflawni yn erbyn y 10 Safon ganlynol?</b>	<b>11</b>
	◦ Safon 4	
	◦ Safon 5	
	◦ Safon 6	
	◦ Safon 7	
	◦ Safon 8	
	◦ Safon 9	
	◦ Safon 15	
	◦ Safon 17	
	◦ Safon 25	
	◦ Safon 26	
<b>5.</b>	<b>A gyflawnwyd gwelliannau ar gyfer y Safonau hynny lle yr aswyd bod Bwrdd Iechyd Lleol Powys yn Ymwybodol neu'n Ymatebol ar un neu fwy o'r tair lefel asesu (Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol, Profiad y Defnyddiwr) yn 2006-07?</b>	<b>25</b>
<b>6.</b>	<b>Pa mor dda y mae'r Safonau Gofal Iechyd wedi eu hymsefydlu ym mhrosesau llywodraethu a sicrhau mewnol BILI Powys?</b>	<b>41</b>

<b>7.</b>	<b>Y Camau Nesaf</b>	<b>45</b>
	<b>Atodiadau</b>	
	Atodiad 1: Diffiniadau o Lefelau Aeddfedrwydd	47
	Atodiad 2: Crynodeb o Lefelau Aeddfedrwydd ar gyfer y Safonau hynny sy'n agored i ddilysiad annibynnol gan AGIC	49
	Atodiad 3: Crynodeb o Lefelau Aeddfedrwydd ar gyfer y Safonau hynny nad ydynt yn agored i ddilysiad annibynnol gan AGIC	55
	Atodiad 4: Crynodeb o Aeddfedrwydd yn ôl Lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr	57
	Atodiad 5: Y Safonau Gofal Iechyd i Gymru - diffiniadau	59
	Atodiad 6: Rhestr Termau	65

## Crynodeb Gweithredol

Cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru y *Safonau Gofal Iechyd i Gymru* ym mis Mai 2005 gan gyflwyno fframwaith cyffredin o 32<sup>1</sup> o safonau gyda'r nod o gynorthwyo'r ddarpariaeth o wasanaethau gofal iechyd prydlon ac o ansawdd da ac felly sicrhau lefelau gwell o driniaeth a gofal i ddinasyddion Cymru. O 2007 ymlaen, mae'n ofynnol i Ymddiriedolaethau'r GIG, Byrddau Iechyd Lleol a Chomisiwn Iechyd Cymru asesu eu hunain yn erbyn y Safonau Gofal Iechyd yn flynyddol a Byrddau'r sefydliadau hynny sydd â'r cyfrifoldeb pendant am gydymffurfio â'r safonau. O fis Ebrill 2008 ymlaen, bydd yr asesiad hwn yn rhoi sail i'w Datganiadau Rheolaeth Fewnol a'u Hadroddiadau Blynyddol.

Mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru wedyn yn gyfrifol am arwain y gwaith o gydgyssylltu'r broses o brofi a dilysu hunanaseiadau. Nodir manylion y ffordd y cyflawnwyd hyn eleni a'r canfyddiadau sy'n deillio o'n hadolygiad yn Adran 4 prif ran yr adroddiad hwn. Yn ystod y misoedd nesaf, byddwn yn gweithio gydag Ymddiriedolaethau, Byrddau Iechyd Lleol a Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddatblygu ymhellach ein dull o asesu sefydliadau yn erbyn y Safonau Gofal Iechyd fel ei fod yn briodol i'r strwythurau newydd fydd yn cael eu sefydlu yn dilyn yr ymarfer ymgynghori a gynhelir yn ystod hydref 2008.

Eleni hefyd, yn ogystal ag asesu a yw sefydliadau'n bodloni gofynion safonau unigol, rydym wedi ystyried a yw sefydliadau wedi ymsefydlu'r Safonau Gofal Iechyd yn eu dulliau llywodraethu a sicrhau mewnol. Mae'n amlwg bod Bwrdd Iechyd Lleol (BILI) Powys yn rhoi ystyriaeth ddifrifol iawn i'w swyddogaeth o ran y mater hwn, ac o ganlyniad roedd yn gallu cyflwyno lefel o dystiolaeth y llynedd a oedd yn cefnogi lefel aeddfedrwydd **Datblygol**<sup>2</sup> neu uwch ar gyfer 11 o'r 32 Safon.

Eleni, ar gyfer pob Ymddiriedolaeth y GIG a Bwrdd Iechyd Lleol Powys, adolygwyd 10 o'r 32 safon gennym [Safonau 4, 5, 6, 7, 8, 9, 15, 17, 25 a 26], sef y safonau

---

<sup>1</sup> Nodir y 32 safon yn Atodiad 5 yr adroddiad hwn.

<sup>2</sup> Mae'n ofynnol i sefydliadau asesu eu cynnydd o ran cyflawni'r lefel uchaf o berfformiad yn erbyn pob un o'r 32 o safonau gan ddefnyddio matrices aeddfedrwydd. Mae'r matrices aeddfedrwydd yn sicrhau y gellir asesu perfformiad yn erbyn y pum lefel aeddfedrwydd canlynol – Ymwybodol; Ymatebol; Datblygol; Ymarferol ac Arweiniol.

hynny yr aseswyd bod nifer o sefydliadau darparu yn tangyflawni yn eu herbyn y llynedd. Ar y cyfan, roedd BILI Powys wedi cyflawni'n dda yn erbyn y safonau hyn, ac aseswyd bod ganddo aeddfedrwydd **Datblygol** neu uwch ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr ar gyfer saith o'r 10 safon eleni.

Gwnaethom hefyd adolygu, ar gyfer pob ymddiriedolaeth y GIG a Bwrdd Iechyd Lleol, y safonau hynny lle'r oeddem wedi asesu mai dim ond **Ymwybodol** neu **Ymatebol** yr oeddent yn 2006-07. Y llynedd, aseswyd bod BILI Powys yn **Ymwybodol** neu'n **Ymatebol** ar un neu fwy o'r lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr ar gyfer 12 safon [Safonau 1, 2, 10, 11, 20, 21, 22, 23, 24, 27, 28, a 30]. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwneud gwelliannau o ran chwech o'r safonau hyn, a bellach asesir bod ganddo aeddfedrwydd **Datblygol** neu uwch (Safonau 1, 20, 21, 22, 27 a 28]. Mae'n parhau i fod yn **Ymatebol** ar bob lefel ar gyfer Safonau 2 a 24, ar y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol ar gyfer Safon 11, ac ar lefel Profiad y Defnyddiwr ar gyfer Safonau 10, 23, a 30, a bydd yn rhaid iddo gymryd camau pellach i wella ei aeddfedrwydd yn ystod y misoedd nesaf.

Rydym yn ystyried bod y BILI wedi cymryd camau sylweddol i ymsefydlu'r Safonau Gofal Iechyd a'u gwneud yn rhan o'i drefniadau llywodraethu. Ceir tystiolaeth fod y Bwrdd yn ymgysylltu ag agenda a phroses asesu'r Safonau Gofal Iechyd, ac mae'r cynnydd a wnaed ganddo yn erbyn y camau gweithredu a nodwyd yn ei Gynllun Gwella Safonau Gofal Iechyd 2007-08 yn dangos ymrwymiad i wella ei aeddfedrwydd ymhellach ar bob lefel. Darperir manylion pellach am ddulliau'r BILI yn Adran 6 yr adroddiad hwn. Mae'r BILI wedi wynebu rhai heriau anodd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ond er gwaethaf hyn, mae wedi cyflwyno dull hunanasesu ar lefel gyfarwyddol sydd wedi ei alluogi i fonitro cynnydd yn effeithiol ar draws y sefydliad.

## 1. Cyflwyniad a Chyd-destun

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau'r gwaith a gyflawnwyd gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru i brofi a dilysu hunanasesiad Bwrdd Iechyd Lleol Powys o berfformiad yn 2007-08 yn erbyn y *Safonau Gofal Iechyd i Gymru*.

### Y Safonau

1.2 Cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru y *Safonau Gofal Iechyd i Gymru* ym mis Mai 2005 a daethant i rym ar 1 Mehefin 2005. Maent yn cyflwyno fframwaith safonau gofal iechyd cyffredin i gynorthwyo'r GIG a sefydliadau partner i ddarparu gwasanaethau effeithiol, prydlon ac o ansawdd da ym mhob lleoliad gofal iechyd.

1.3 Yn anad dim, cynlluniwyd y Safonau Gofal Iechyd i ddarparu'r lefelau gofal a thriniaeth gwell y mae gan bobl Cymru hawl i'w disgwyl yn rhesymol. Maent yn darparu sail y gall sefydliadau gofal iechyd adeiladu arni a gwireddu'r disgwyliadau newydd a mwy heriol ar gyfer gofal i gleifion a nodwyd yn strategaeth 10 mlynedd Llywodraeth Cynulliad Cymru, '*Cynllun Oes*'. Mae'n ofynnol i bob sefydliad gofal iechyd<sup>3</sup> yng Nghymru ystyried y safonau wrth ddarparu gofal iechyd a chomisiynu gwasanaethau gofal iechyd, beth bynnag fo'r lleoliad.

1.4 Mae'r *Safonau Gofal Iechyd i Gymru'n* nodi 32 o safonau mewn pedwar maes. Mae pob un o'r meysydd yn deillio o'r gwerthoedd craidd a ddylai fod yn sail i'r broses o gomisiynu a darparu gwasanaethau gofal iechyd, ac mae pob safon mewn maes yn disgrifio'r gwerthoedd y mae'r maes hwnnw'n eu cynrychioli.

- Mae'r maes cyntaf, sef '*Profiad y Claf*' yn nodi:

---

<sup>3</sup> Diffinnir sefydliadau gofal iechyd fel cyrff y GIG yng Nghymru, contractwyr annibynnol a sefydliadau ac unigolion eraill, gan gynnwys y sectorau annibynnol a gwirfoddol, sy'n darparu neu'n comisiynu gofal iechyd i gleifion unigol, defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd.

*Bydd y safonau i gefnogi'r broses o ddarparu gofal iechyd mewn partneriaeth â chleifion, defnyddwyr gwasanaeth, eu gofalwyr a'u perthnasau, a'r cyhoedd yn seiliedig ar gynlluniau a phenderfyniadau sy'n parchu anghenion a dewisiadau amrywiol. Bydd y gwasanaethau'n hawdd eu defnyddio ac yn canolbwyntio ar y claf. Bydd gofal iechyd yn cael ei ddarparu mewn amgylcheddau sy'n hybu lles y cleifion a'r staff ac sy'n parchu anghenion a dewisiadau'r cleifion unigol, gan y byddant wedi'u cynllunio i ddarparu triniaeth a gofal yn effeithiol a diogel ac y byddant yn cael eu cynnal a'u cadw, a'u glanhau'n dda er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau posibl o ran iechyd y cleifion.*

- ° Mae'r ail faes, sef 'Canlyniadau Clinigol' yn nodi y bydd:

*Y penderfyniadau a'r gwasanaethau gofal iechyd yn seiliedig ar yr hyn y mae tystiolaeth gwaith ymchwil wedi'i asesu'n briodol, yn nodi sydd ei angen er mwyn sicrhau canlyniad effeithiol ar gyfer cleifion a defnyddwyr gwasanaeth gan ystyried eu hanghenion a'u dewisiadau unigol. Bydd cleifion a defnyddwyr gwasanaeth yn derbyn gwasanaethau mor gyflym â phosibl, ac ni fyddant yn profi oedi afresymol ar unrhyw adeg yn ystod y broses o ddarparu gwasanaethau na'u llwybr gofal.*

- ° Mae'r trydydd maes, sef 'Llywodraethu Gofal Iechyd' yn ei gwneud yn eglur:

*Y bydd gan Ddarparwyr a Chomisiynwyr gofal iechyd systemau wedi'u sefydlu sy'n cefnogi arweiniad ac atebolrwydd staff clinigol a rheolwyr ac sy'n canolbwyntio ar anghenion a dewisiadau cleifion a defnyddwyr gwasanaeth. Bydd arferion gwaith wedi'u sefydlu i sicrhau bod uniondeb, sicrhau ansawdd, dulliau gwella ansawdd a diogelwch y cleifion yn ganolog i'r holl arferion, prosesau a gweithgareddau.*

- ° Mae'r pedwerydd maes, sef 'Iechyd y Cyhoedd' yn datgan:

*Y bydd cyrff gofal iechyd yn cydweithredu â sefydliadau perthnasol eraill a chymunedau lleol i sicrhau bod y rhaglenni a'r gwasanaethau'n cael eu llunio a'u darparu i hyrwyddo, amddiffyn a gwella iechyd, a mynd i'r afael ag anghydraddoldeb iechyd a helpu pobl i fyw bywydau iach ac annibynnol.*

## **Sicrhau Cydymffurfiad**

1.5 Y llynedd, am y tro cyntaf, roedd yn ofynnol i sefydliadau'r GIG asesu eu hunain yn erbyn y *Safonau Gofal Iechyd i Gymru* a gosodwyd y cyfrifoldeb pendant am sicrhau cydymffurfiad â'r *Safonau* ar Fyrddau'r sefydliadau gofal iechyd. Mae'r broses asesu flynyddol yn erbyn y *Safonau Gofal Iechyd* yn

allweddol i sicrhau bod sefydliadau gofal iechyd yn atebol am safon y gwasanaethau y maent yn eu darparu a bod cleifion a'r cyhoedd yn cael eu hysbysu'n well am berfformiad eu darparwyr a'u comisiynwyr gofal iechyd ac, yn bwysicaf oll, y safonau y dylent eu disgwyl. O fis Ebrill 2008 ymlaen, defnyddir yr asesiad hwn fel sail i Ddatganiadau Rheolaeth Fewnol ac Adroddiadau Blynyddol sefydliadau.

1.6 Mae'n ofynnol i sefydliadau gyflwyno eu datganiadau a'u ffurflenni hunanasesu'n ffurfiol i Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, sy'n gyfrifol am arwain y gwaith o gydgyssylltu, profi a dilysu'r ffurflenni, gan ddefnyddio dadansoddiad sy'n seiliedig ar risg, yn erbyn amrywiaeth o ffynonellau data. Nodir y broses a fabwysiadwyd gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru i brofi a dilysu cyflwyniadau 2007-08 yn yr adran ganlynol.



## 2. Proses Asesu 2007-08

### Yr Hunanasesiad

2.1 Mae'r broses hunanasesu'n profi perfformiad yn erbyn y *Safonau Gofal Iechyd* ar dair gwahanol lefel:

- *Corfforaethol* – pa mor dda mae Byrddau'n gwneud eu gwaith o ran sicrhau cydymffurfiad â'r Safonau?
- *Canlyniadau Gweithredol/Clinigol* – sut mae cydymffurfiad â'r safonau'n cael ei sicrhau ar lefel y gwasanaeth/ward?
- *Profiad y Defnyddiwr*<sup>4</sup> – sut brofiad mae'r defnyddiwr yn ei gael ac a yw hyn yn gwella?

2.2 Pennwyd meini prawf a chwestiynau asesu ar gyfer pob safon ac fe'u datblygwyd fel rhaglen asesu ar y we sy'n galluogi hunanasesiadau i gael eu cwblhau ar-lein ac i dystiolaeth ddogfennol i gefnogi'r atebion a roddwyd i bob cwestiwn gael ei lanlwytho. Mae'n ofynnol i sefydliadau asesu eu cynnydd o ran darparu'r lefel uchaf o berfformiad yn erbyn pob un o'r 32 safon gan ddefnyddio matrices aeddfedrwydd. Mae'r matrices aeddfedrwydd yn caniatáu i berfformiad gael ei asesu ar y lefelau corfforaethol, gweithredol a phrofiad y defnyddiwr fel bod ar un o bum lefel aeddfedrwydd:

- Ymwybodol
- Ymatebol
- Datblygol
- Ymarferol
- Arweiniol

Mae diffiniadau o bob un o'r lefelau aeddfedrwydd hyn ar gael yn Atodiad 1.

---

<sup>4</sup> Yng nghyd-destun y broses asesu Safonau Gofal Iechyd, defnyddir y term 'defnyddiwr' i ddynodi cleifion, defnyddwyr gwasanaeth, gofalwyr a staff.

2.3 9 Mai 2008 oedd y dyddiad cau ar gyfer dychwelyd hunanasesiadau eleni; gan sicrhau bod terfynau amser yn cyd-fynd â'r cylch adrodd blynyddol a chaniatáu i olwg gyflawn ar drefniadau llywodraethu sefydliadau, a pherfformiad clinigol ac ariannol gael eu derbyn ar union yr un pryd.

### **Profi a Dilysu**

2.4 Mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru wedi profi a dilysu cyflwyniad hunanasesu 2007-08 BILI Powys, ac mae hyn wedi cynnwys:

- *Gwerthusiad manwl o'r 10 safon ganlynol y nodwyd eu bod yn feysydd lle yr oedd nifer o Fyrddau Iechyd Lleol yn tangyflawni ynddynt y llynedd:*

- × Safon 4

- × Safon 5

- × Safon 6

- × Safon 7

- × Safon 8

- × Safon 9

- × Safon 15

- × Safon 17

- × Safon 25

- × Safon 26

- *Adolygiad o gynnydd yn erbyn y safonau hynny yr asesodd AGIC fod BILI Powys ddim ond yn Ymwybodol neu'n Ymatebol y llynedd, sef:*

- × *Safon 1*

- × *Safon 2*

- × *Safon 3*
- × *Safon 10*
- × *Safon 11*
- × *Safon 20*
- × *Safon 21*
- × *Safon 22*
- × *Safon 23*
- × *Safon 24*
- × *Safon 27*
- × *Safon 28*
- × *Safon 30*
- ° *Asesiad o ymrwymiad BILI Powys i'r Safonau Gofal Iechyd i Gymru ac yn enwedig pa mor dda y mae wedi'u hymsefydlu yn ei drefn lywodraethu a'i brosesau sicrhau mewnol.*

2.5 Cwblhawyd y camau canlynol er mwyn ein galluogi i ddarparu'r sicrwydd a'r beirniadaethau a gyflwynir yn yr adroddiad hwn:

- ° *Cam 1* - Dilysiad pen desg o'r hunanasesiadau a gyflwynwyd yn erbyn pob un o'r safonau uchod; gyda thîm o adolygwyr cymheiriaid yn canolbwyntio ar y 10 safon benodol. Roedd y cam hwn yn cynnwys nodi pa un a oedd y cwestiynau oedd yn ategu pob maen prawf wedi'u hateb yn briodol, profi pa un a oedd yr atebion wedi'u cefnogi gan dystiolaeth ddigonol a pherthnasol a gwerthuso pa un a oedd yr atebion yn cyd-fynd â'r marc aeddfedrwydd a ddyfarnwyd gan y sefydliad.
- ° *Cam 2* - Cynhaliwyd cyfarfodydd gydag Archwilwyr Mewnol BILI Powys a Swyddfa Ranbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru i asesu'r cynnydd a wnaed o ran gweithredu'r gwelliannau a nodwyd yng Nghynllun Gwella

2007-08 BILI Powys ac o ran ymsefydlu'r broses o asesu yn erbyn y Safonau Gofal Iechyd yn ei drefniadau llywodraethu arferol.

- *Cam 3* - Cynnal Uwchgynhadledd Gofal Iechyd. Yn yr un modd â'r llynedd, fe wnaeth AGIC gydgysylltu a hwyluso cyfarfod, 'Uwchgynhadledd Gofal Iechyd', gan ddod â chyrrff adolygu ac archwilio ynghyd fel y gellid rhannu gwybodaeth a'i chyfrannu at y broses o gadarnhau asesiadau'r Safonau Gofal Iechyd.
- *Cam 4* - Cyfarfod gyda chynrychiolwyr o Fwrdd BILI Powys i drafod y canfyddiadau a gododd o'r camau uchod ac i roi cyfle i'r Bwrdd hysbysu'r tîm adolygu am y camau y maent yn bwriadu eu cymryd.

2.6 Ni chynhaliwyd ymweliad arsylwi â'r BILI fel rhan o'r broses ddilysu ar gyfer eleni.

### **3. Trosolwg o Fwrdd Iechyd Lleol Powys**

3.1 Sefydlwyd Bwrdd Iechyd Lleol (BILI) Powys ar 1 Ebrill 2003. Mae'n gwasanaethu ardal ddaearyddol sy'n cydffinio ag ardal Cyngor Bwrdeistref Sirol Powys, ac y mae'n rhannu cyfrifoldeb statudol â'r Cyngor hwnnw am weithredu'r Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles ar y cyd. Mae ganddo boblogaeth breswyl o 130,000 o bobl<sup>5</sup>.

3.2 Prif swyddogaethau Byrddau Iechyd Lleol yw llywodraethu corfforaethol a chlinigol; sicrhau a darparu gwasanaethau gofal iechyd sylfaenol a chymunedol; sicrhau gwasanaethau gofal eilaidd; gwella iechyd cymunedau; partneriaeth; ymgysylltu â'r cyhoedd a darparu gwasanaethau.

3.3 Mae Byrddau Iechyd Lleol yn ymwneud â dau fath o bartneriaeth leol ffurfiol:

- Llunio a gweithredu Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles gyda'r Awdurdod Lleol ac mewn ymgynghoriad â phartïon eraill.
- Comisiynu gwasanaethau lleol gan ystod o ddarparwyr gan gynnwys ymddiriedolaethau ysbytai, contractwyr gofal sylfaenol, y sector gwirfoddol a'r sector annibynnol. Mae'r gwasanaethau a gomisiynir yn cynnwys gwasanaethau gofal iechyd sylfaenol, cymunedol ac eilaidd.

3.4 Yn ogystal â chomisiynu gwasanaethau, mae BILI Powys yn unigryw gan ei fod hefyd yn darparu gwasanaethau ac yn cyflogi tua 2,500 o bobl.

3.5 Mae Canolfan Gwasanaethau Busnes (BSC) y GIG yn rhan o BILI Powys, ac mae'n darparu gwasanaethau ariannol, Adnoddau Dynol, a Thechnoleg a Rheoli Gwybodaeth (IM&T) ar gyfer pob un o'r 22 Bwrdd Iechyd Lleol (gan gynnwys rhai ar gyfer BILI Powys). Mae'r BSC hefyd yn darparu amrywiaeth o wasanaethau ar gyfer gofal sylfaenol (gwasanaethau

---

<sup>5</sup> Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

contractwyr), yn ogystal ag ar gyfer y Cynghorau Iechyd Cymuned a changen gwasanaethau darparwyr y BILI.

#### **4. Pa mor dda y mae BILI Powys yn cyflawni yn erbyn Safonau 4, 5, 6, 7, 8, 9, 15, 17, 25 a 26?**

Aseswyd y 10 safon ganlynol eleni oherwydd iddynt gael eu nodi fel meysydd yr oedd nifer o sefydliadau darparu yn tangyflawni ynddynt yn 2006-07.

**Safon 4:** *Caiff gofal iechyd ei ddarparu mewn lleoliadau priodol sydd wedi'u cynllunio'n dda er mwyn:*

- a. hybu lles y cleifion a'r staff;*
- b. parchu anghenion gwahanol gleifion, eu preifatrwydd a chyfrinachedd;*
- c. ystyried diogelwch y cleifion, y defnyddwyr a'r staff; a*
- ch. darparu amgylchedd diogel sy'n amddiffyn y cleifion, y staff, yr ymwelwyr a'u heiddo, yn ogystal ag asedau ffisegol y sefydliad.*

S4.1 Asesodd y BILI ei hun fel bod yn **Ddatblygol** ar y tair lefel. [*Y llynedd, daeth ein hasesiad ni i'r casgliad bod y BILI yn **Ddatblygol** ar y lefel Gorfforaethol and yn **Ymatebol** ar y lefelau Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.*]

S4.2 Mae'r BILI wedi dangos cynnydd yn erbyn y Safon hon ac mae wedi cyflawni Achrediad Lefel 3 y Ddraig Werdd mewn Rheoli Amgylcheddol. Yn ogystal, mae'r BILI wedi darparu tystiolaeth i ddangos bod Cynllun Cydraddoldeb Anabledd a pholisïau perthnasol eraill wedi'u sefydlu i sicrhau bod anghenion, preifatrwydd a chyfrinachedd cleifion yn cael eu parchu.

S4.3 Mae'r staff yn codi eu pryderon ynghylch diogelwch trwy ddefnyddio'r system adrodd am ddigwyddiadau, cyfarfodydd Iechyd a Diogelwch a Rheoli Risg Corfforaethol a Lleol neu gyfarfodydd y Tîm Gweithredol. Cofnodir y risgiau hyn ar y gofrestr rheoli risg, ac ers cyflwyniad y llynedd, mae'r BILI yn cynnwys rhestrau o'r fath yn Adroddiadau Eithrio Safonau Gofal Iechyd y Gyfarwyddiaeth a gyflwynir i'r Pwyllgor Llywodraethu a Rheoli Risg. Mae hyn wedi sicrhau bod amgylcheddau yn cael eu monitro'n rhagweithiol, a oedd yn faes pryder y llynedd.

S4.4. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'r BILI wedi gwneud newidiadau i'r amgylchedd gofal o ganlyniad i sylwadau (cwynion a chanmoliaeth) a dderbyniwyd, ynghyd â digwyddiadau yn ymwneud â diogelwch cleifion a oedd yn gysylltiedig â ffactorau amgylcheddol. Mae'r BILI hefyd wedi gosod safonau ar gyfer darparu amgylcheddau saff a diogel mewn meddygfeydd i ddarparu mân driniaethau llawfeddygol. Cyfeiriwyd hefyd at sut y mae'r staff yn cydymffurfio â'r gofynion cyfredol o ran diogelwch. Fodd bynnag, ni chafwyd unrhyw dystiolaeth gan y BILI i ddangos sut yr oedd hyn yn cynnwys cefnogi staff dan gytundeb.

S4.5 Rydym yn asesu bod y BILI yn **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

**Safon 5:** *Mae gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn lleoliadau sydd:*

- a. yn cael eu cynnal a'u cadw at safonau glanweithdra sy'n dderbyniol yn genedlaethol;*
- b. yn gostwng y perygl i gleifion, staff ac ymwelwyr o ddal heintiau cysylltiedig â gofal iechyd, gan leihau nifer yr achosion o flwyddyn i flwyddyn; ac*
- c. yn pwysleisio safonau uchel o ran hylendid ac yn cydymffurfio â mentrau i annog arferion gorau.*

S5.1 Asesodd y BILI ei hun fel bod yn **Ddatblygol** ar bob lefel. [*Y llynedd, daeth ein hasesiad ni i'r casgliad bod y BILI yn **Ddatblygol** ar bob lefel.*]

S5.2 Mae llinellau eglur o atebolrwydd i'r Bwrdd, ynghyd â strwythur llywodraethu diffiniedig, wedi eu sefydlu o ran yr agweddau a gynhwysir yn y Safon hon. Rhoddir digon o wybodaeth i'r Bwrdd am faterion sy'n ymwneud â chyflwr yr ystâd. Roedd y dystiolaeth a gyflwynwyd yn dangos bod cyflwr yr ystâd yn wael ar y cyfan, ond nid yw'n eglur pa un a oes unrhyw gamau wedi eu cymryd i ddatrys y problemau a nodwyd.

S5.3 Mae'r BILI wedi amlygu yn ei gyflwyniad fod ganddo broblemau o ran glanweithdra. Mae is-grŵp amgylchedd wedi ei sefydlu i helpu i fynd i'r afael â

meysydd problemus a'u gwella, ond byddem yn croesawu mwy o wybodaeth am y camau y mae'r BILI yn bwriadu eu cymryd.

S5.4 Mae'r BILI yn cymryd rhan yn yr ymgyrch 'glanhewcheichdwylo', a chynhelir archwiliadau o gyfleusterau hylendid dwylo. Byddai'n fuddiol ymestyn yr archwiliadau hyn i gynnwys cydymffurfiad ymysg y staff o ran golchi dwylo. Nodwyd mai'r bwriad oedd darparu sebon hylif alcohol i'r staff a phapurau gwlyb i lanhau'r dwylo ar gyfer cleifion erbyn 2008, ond ni chyflawnwyd hyn. Nid yw sebon hylif alcohol ar gael yn gyson i'r staff ar draws y BILI, a dywedir bod peiriannau sebon hylif alcohol wedi eu gosod ger basnau hylendid dwylo - pan ddylent gael eu gosod wrth y pwynt gofal i fod yn fwyaf effeithiol.

S5.5 Fodd bynnag, rydym yn cytuno bod y BILI yn **Ddatblygol** ar y tair lefel.

**Safon 6:** *Mae cyrff gofal iechyd, wrth gydnabod y gwahanol anghenion o ran cyfathrebu a'r gwahanol anghenion ieithyddol, corfforol a diwylliannol:*

- a. yn sicrhau bod gwybodaeth am eu gwasanaethau ar gael i gleifion, defnyddwyr gwasanaeth, eu gofalwyr a'u perthnasau, a'r cyhoedd;*
- b. yn rhoi gwybodaeth yn brydlon i gleifion a defnyddwyr gwasanaeth am eu cyflwr; y gofal a'r driniaeth y byddant yn eu cael yn ogystal â'r trefniadau ar gyfer darparu ôl-ofal a chymorth; ac*
- c. yn rhoi cyfleoedd i gleifion a defnyddwyr gwasanaeth drafod a chytuno ar ddewisiadau yn ymwneud â'u gofal.*

S6.1 Asesodd y BILI ei hun fel bod yn **Ymatebol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr. *[Y llynedd, daeth ein hasesiad ni i'r casgliad bod y BILI yn **Ymatebol** ar y tair lefel.]*

S6.2 Prin yw'r dystiolaeth i ddangos bod dulliau sicrhau wedi eu sefydlu gan y Bwrdd ar gyfer y Safon hon, ond mae peth dystiolaeth ar gael i ddangos bod y Bwrdd wedi dechrau cymryd camau i fynd i'r afael â hyn.

S6.3 Sicrhwyd bod hyfforddiant ar ymwybyddiaeth o gydraddoldeb ac amrywiaeth ar gael i staff y BILI. O ran gofal sylfaenol a gofal eilaidd, mae taflenni ar gael ar gyfer cleifion ar hysbysfyrdau ac mewn derbynfeydd sy'n

darparu gwybodaeth gyfredol sy'n seiliedig ar dystiolaeth am amrywiaeth eang o gyflyrau.

S6.4 Mae Gwasanaeth Dehongli'r Llinell Iaith ar gael i staff gofal sylfaenol a gofal eilaidd, a sicrhawyd bod gwasanaethau cyfieithu ar gael iddynt.

S6.5 Mae Grŵp Gorchwyl a Gorffen Amlasiantaethol wedi ei sefydlu, ac mae yn y broses o adolygu polisïau ac arferion ym Mhowys i sicrhau bod dewisiadau a chyfleoedd ar gael i gleifion sydd ag anghenion amrywiol er mwyn iddynt allu trafod eu gofal a chytuno arno. Dangoswyd i'r polisi drafft cyfredol fod yn effeithiol o ran ymdrin yn ddiweddar â phlentyn digwmni a oedd yn ceisio lloches. Mae hyn yn dangos bod rhai camau yn cael eu cymryd i wella Profiad y Defnyddiwr.

S6.6 Rydym yn cytuno ag asesiad y BILI o fod yn **Ymatebol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr, ac rydym yn ystyried y bydd peth o'r gwaith y mae wedi dechrau ei sefydlu yn gwella ei aeddfedrwydd yn ystod y misoedd nesaf.

**Safon 7:** *Mae cleifion a defnyddwyr gwasanaeth, gan gynnwys pobl ag afiechydon hirdymor, yn cael eu hannog i gyfrannu at eu cynlluniau gofal eu hunain ac yn cael cyfleoedd ac adnoddau i ddatblygu eu gallu i ofalu amdanynt eu hunain.*

S7.1 Asesodd y BILI ei hun fel bod yn **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr. *[Y llynedd, daeth ein hasesiad ni i'r casgliad bod y BILI yn **Ymatebol** ar y tair lefel.]*

S7.2 Er bod y BILI wedi disgrifio gweithgareddau mewn rhai o'i feysydd gwasanaeth sy'n berthnasol i'r Safon hon, e.e. Rhaglenni Cleifion Arbenigol a Llwybr Gofal Integredig, ac wedi darparu peth dystiolaeth i gefnogi hyn, roedd llawer o'r dystiolaeth yn amherthnasol i'r Safon hon.

S7.3 Yr hyn sy'n bwysig yw mai prin oedd y disgrifiad a'r dystiolaeth i ddangos sut y mae'r Bwrdd yn darparu goruchwyliaeth ar lefel Gorfforaethol o rai fframweithiau trosfwaol allweddol lle y gallai'r canlyniadau penodol sy'n ofynnol ar gyfer y Safon hon gael eu cyflawni, er enghraifft, y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Pobl Hŷn. Mae'r enghraifft a roddwyd o'r Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles, a'r camau ar lefel y Bwrdd a ddisgrifir ynddi yn berthnasol, ond unwaith eto, nid oedd yr ymateb yn eglur o ran y cysylltiad strategol.

S7.4 Darparwyd tystiolaeth o fonitro ar lefel weithredol ac roedd hyn yn cynnwys gwahanol feysydd gwasanaeth. Byddai mwy o dystiolaeth o gyfeiriad strategol ar lefel gorfforaethol, gyda threfniadau atebolrwydd a monitro ar gyfer meysydd gwasanaeth allweddol, wedi bod yn fuddiol i gefnogi lefel aeddfedrwydd hunanasesedig y Bwrdd.

S7.5 Roedd ymateb a thystiolaeth y BILI o ran hyfforddiant yn eithaf cyfyngedig. Nid oedd unrhyw arwydd o ystod ehangach o weithgareddau ategol, megis meincnodi, nac o gleifion yn ymwneud â'r broses cynllunio gofal.

S7.6 Roedd yr adroddiad Llywodraethu Clinigol a gyflwynwyd fel tystiolaeth yn dangos bod cynnydd yn cael ei wneud mewn tri maes gwasanaeth yn sgîl datblygiadau'r Llwybr Gofal Integredig. Yn ogystal, darparwyd enghreifftiau o Wasanaethau Iechyd Meddwl, ond byddai wedi bod yn fuddiol gweld enghreifftiau ehangach, e.e., enghreifftiau a oedd yn ymwneud â gwasanaethau gofal i bobl hŷn yn gyffredinol.

S7.7 Darparodd y BILI ddisgrifiad cryno o beth gweithgaredd o ran Adsefydlu ac Ymarfer, Fferylliaeth Gymunedol a gofal Diabetig.

S7.8 Rydym yn asesu bod y BILI yn **Ymatebol** ar y lefelau Corfforaethol a Phrofiad y Defnyddiwr, ac yn **Ddatblygol** ar y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol.

**Safon 8:** Mae cyrff gofal iechyd yn sicrhau:

- a. bod y staff yn trin cleifion, defnyddwyr gwasanaeth, eu perthnasau a'u gofalwyr ag urddas a pharch;
- b. bod y staff eu hunain yn cael eu trin ag urddas a chyda pharch i'r gwahaniaethau rhyngddynt;
- c. yr eir ati'n briodol i gael caniatâd bob amser cyn cysylltu â chleifion a defnyddwyr gwasanaeth a chyn defnyddio gwybodaeth gyfrinachol am gleifion; a
- ch. bod unrhyw wybodaeth am gleifion yn cael ei thrin yn gyfrinachol, ac eithrio pan fo deddfwriaeth yn caniatáu ei defnyddio.

S8.1 Fel rhan o'i asesiad yn 2007-08, daeth y BILI i'r casgliad ei fod yn **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr. [*Y llynedd, daeth ein hasesiad ni i'r casgliad bod y BILI yn **Ymatebol** ar y lefel Gorfforaethol, ac yn **Ddatblygol** ar y lefelau Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.*]

S8.2 Mae'r BILI wedi gwneud peth cynnydd yn erbyn y Safon hon. Mae polisiau, strategaethau a gweithdrefnau priodol wedi'u sefydlu, ac mae'r BILI wedi ymuno â'r rhaglen 'Urddas mewn Gofal'. Mae Bwrdd Partneriaeth wedi'i sefydlu sy'n cyfarfod bob deufis. Mae hyn yn caniatáu i gynrychiolwyr y staff gyfarfod â'r Tîm Gweithredol i drafod materion perthnasol. Rydym yn falch o nodi bod y BILI wedi sefydlu Gwasanaeth Eirioli Annibynnol o ran Galluedd Meddyliol.

S8.3 Mae Cynllun Gwella a Rhaglen Hunanasesu Safonau Gofal Iechyd y Gyfarwyddiaeth hefyd o gymorth wrth fonitro'r Safon hon ar y lefelau Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr, ond mae'r BILI yn cydnabod bod angen gwneud mwy o waith i allu monitro cydymffurfiaid â'r Safon hon yn gyson ac yn effeithiol.

S8.4 Darperir amrywiaeth o hyfforddiant ar gyfer y staff, a cheir gwahoddiad agored i'r staff, ar bob lefel, gymryd rhan yn y Brîff Allweddol a gynhelir bob mis. Mae hwn yn ymdrin â materion strategol a gweithredol, ac mae'r Prif Weithredwr yn gwahodd y staff i godi unrhyw faterion, naill ai drwy'r Brîff Allweddol neu drwy e-bost personol.

S8.5 Cynhelir archwiliad blynyddol o gydymffurfiaid â'r polisi caniatâd, a rhennir canlyniad yr ymarfer hwn ar draws y BILI. Cynhelir arolygon cleifion hefyd, sy'n canolbwyntio ar wybodaeth a chaniatâd. Dangosir yn eglur y newidiadau a wneir o ganlyniad i fonitro cydymffurfiaid â chanllawiau caniatâd cleifion.

S8.6 Darparwyd tystiolaeth hefyd i ddangos bod gwelliannau wedi eu gwneud o ganlyniad i gwynion a chanmoliaeth a oedd yn ymwneud â materion urddas a pharch. Yn ogystal, mewn ymateb i bryderon a godwyd gan y staff ynglŷn â throsglwyddo gwybodaeth am y newidiadau a oedd yn digwydd yn y sefydliad ac i'r gwasanaeth, sefydlwyd amrywiaeth o ddulliau er mwyn sicrhau bod gwybodaeth gyfredol ar gael i bob aelod o staff.

S8.7 Rydym yn cydnabod bod y BILI wedi gwneud cynnydd da yn erbyn y Safon hon, ac yn cytuno ag asesiad y BILI o fod yn **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

**Safon 9:** *Lle bydd bwyd yn cael ei ddarparu bydd systemau ar waith i sicrhau:*

- a. bod cleifion a defnyddwyr y gwasanaeth yn cael dewis o fwydydd sydd wedi'u paratoi'n ddiogel ac sy'n sicrhau deiet cytbwys; a*
- b. bod gofynion maeth, personol, diwylliannol a chlinigol y cleifion o ran deiet yn cael eu bodloni, gan gynnwys unrhyw gymorth sydd ei angen arnynt i fwyta, a sicrhau bod bwyd ar gael iddynt 24 awr y dydd.*

S9.1 Asesodd y BILI ei hun fel bod yn **Ymatebol** ar y lefelau Corfforaethol a Phrofiad y Defnyddiwr, ac yn **Ddatblygol** ar y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol. *[Y llynedd, daeth ein hasesiad ni i'r casgliad bod y BILI yn **Ymatebol** ar y tair lefel.]*

S9.2 Ar hyn o bryd, nid yw'r BILI yn darparu bwyd am 24 awr y dydd yn ei ysbytai cymunedol, ond mae trefniadau wedi eu gwneud i sicrhau bod y staff yn gallu cael bwyd ar gyfer eu cleifion y tu allan i oriau arferol. Cynigir dewis o brydau bwyd i'r cleifion, ac maent yn cael diet cytbwys.

S9.3 Mae'n amlwg bod llawer o sylw yn cael ei roi i ddatblygu trefniadau arlwygo newydd, a nodir y bydd y strategaethau arlwygo yn cael eu diweddarau yn dilyn gweithredu'r arfer o rewi bwyd ar ôl ei goginio.

S9.4 Mae dulliau sicrhau'r Bwrdd yn aneglur, ac rydym yn ystyried nad yw derbyn adroddiadau ar gwynion yn ddigonol i ddarparu sicrwydd i'r Bwrdd. Mae'r dyddiad Ionawr 2004 ar Strategaeth Arlwygo'r BILI, gyda'r dyddiad Ebrill 2006 wedi ei nodi ar gyfer adolygiad cychwynnol, ond nid oes unrhyw arwydd bod adolygiad o'r fath wedi ei gynnal. Mae Bwrdd Prosiect Arlwygo wedi'i sefydlu, ond nid yw'n eglur beth yw ei gylch gwaith na'i strwythurau atebolrwydd a hysbysu.

S9.5 Ar y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol, mae'r dystiolaeth a gyflwynwyd yn dangos bod gan y BILI ystod o systemau a phrosesau wedi'u sefydlu. Byddem wedi croesawu mwy o eglurder ynglŷn ag i ba raddau yr ymsefydlwyd rhai o'r rhain yng ngwaith y sefydliad. Mae archwiliadau 'Hanfodion Gofal' wedi eu cynnal, ac mae'r BILI wedi penodi hyfforddwr mewnol er mwyn sicrhau bod y staff yn cael hyfforddiant priodol. Fodd bynnag, roedd yn llai eglur pa un a yw'r BILI wedi cysylltu ei brosesau cynllunio'r gweithlu â gofynion dibyniaeth cleifion.

S9.6 Ar lefel Profiad y Defnyddiwr, mae'n rhaid i'r BILI ddangos ei fod yn bodloni'r gofynion statudol ar gyfer monitro cydymffurfiad o ran cadw, trin a pharatoi bwyd. Er bod yr ymatebion cryno'n nodi yr ymgynghorwyd â rhai grwpiau o gleifion, ni ddarparwyd unrhyw dystiolaeth ategol. Mae angen i'r BILI wella ei dulliau o ran adborth, ynghyd â gweithredu dulliau mwy rhagweithiol, er mwyn sicrhau bod y cleifion yn fodlon ar y bwyd a'r maeth a ddarperir.

S9.7 Mae'r BILI wedi gweithredu rhai systemau a phrosesau ar y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol, ond mae dulliau sicrhau'r Bwrdd a'r dulliau o gael adborth gan gleifion a staff yn parhau i fod heb eu datblygu digon. O ganlyniad, rydym yn asesu bod y BILI yn **Ymatebol** ar y lefelau Corfforaethol

a Phrofiad y Defnyddiwr ac yn **Ddatblygol** ar y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol.

**Safon 15:** *Mae cyrff gofal iechyd, gan gydnabod y gwahanol anghenion o ran iaith a chyfathrebu, yn sicrhau bod cleifion, defnyddwyr gwasanaeth, perthnasau a gofalwyr:*

- a. yn cael rhoi adborth ar eu profiadau ac ar ansawdd y gwasanaethau;*
- b. yn cael sicrwydd bod eu cwynion yn cael sylw prydlon a thrylwyr yn unol â'r weithdrefn gwynion;*
- c. yn cael gwybodaeth am gymorth eiriolaeth ar gyfer cwynion a ddarperir gan Gyngorau Iechyd Cymunedol yng Nghymru; ac*
- ch. yn cael sicrwydd bod y cyrff yn ymateb i unrhyw bryderon ac yn gwneud newidiadau priodol er mwyn gwella'r broses o ddarparu gwasanaethau.*

S15.1 Asesodd y BILI ei hun fel bod yn **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr. [Y llynedd, daeth ein hasesiad ni i'r casgliad bod y BILI yn **Ymatebol** ar y lefelau Corfforaethol a Chanlyniadau Gweithredol/Clinigol ac yn **Ddatblygol** ar lefel Profiad y Defnyddiwr.]

S15.2 Mae'r Bwrdd yn monitro'r cynlluniau strategol sydd wedi'u sefydlu trwy ei brosesau llywodraethu clinigol a gweithredol, ac mae wedi gweithredu'r canlynol:

- Polisi cwynion, a gymeradwywyd yn ffurfiol gan bwyllgor Llywodraethu a Rheoli Risg y BILI ym mis Mawrth 2008.
- Cynhyrchu adroddiadau bob tri mis a bob blwyddyn.
- Penodi Rheolwr Cwynion.
- Cynnal sesiynau hyfforddi ar ymdrin â chwynion a gofal cwsmeriaid, a ddarperir ym mhob safle ysbyty ac i bob darparwr gwasanaeth gofal sylfaenol.

Ceir tystiolaeth hefyd fod y BILI yn darparu adborth i gleifion a defnyddwyr gwasanaeth, ond dim ond drwy ymatebion y broses gwyno. Byddai dulliau mwy rhagweithiol o ddarparu adborth yn gwella aeddfedrwydd y BILI.

S15.3 Disgrifiodd y BILI enghreifftiau diweddar (yn ystod y 12-18 mis diwethaf) o adborth a ddarparwyd i gleifion, defnyddwyr gwasanaeth, perthnasau a gofalwyr ynglŷn â gwelliannau a wnaed i wasanaethau o ganlyniad i bryderon a godwyd.

S15.4 Rydym felly'n asesu bod yr Ymddiriedolaeth yn **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol a Chanlyniadau Gweithredol/Clinigol ac yn **Ymatebol** ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

**Safon 17:** *Mae cyrff gofal iechyd yn cydymffurfio â chanllawiau cenedlaethol ar amddiffyn plant ac oedolion agored i niwed wrth gynnal eu gweithgareddau eu hunain ac wrth ymwneud â chyrrff eraill.*

S17.1 Asesodd y BILI ei hun fel bod yn **Ddatblygol** ar y tair lefel. [*Y llynedd, daeth ein hasesiad ni i'r casgliad bod y BILI yn **Ddatblygol** ar y lefel Gorfforaethol ac yn **Ymatebol** ar y lefelau Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.*]

S17.2 Ar y lefel Gorfforaethol, mae gan y BILI ystod o bolisiau wedi'u sefydlu sy'n berthnasol i'r Safon hon. Cytunir ar bolisiau drwy strwythur pwyllgor y BILI. Y Cyfarwyddwr Nyrsio sy'n cadeirio'r Fforwm Amddiffyn Plant, a rhoddir cofnodion y Fforwm hwn i Gadeirydd y Bwrdd ac arweinydd Llywodraethu Clinigol y BILI.

S17.3 Ar y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol, nid oes unrhyw dystiolaeth ar gael o strategaeth hyfforddi ynglŷn ag Amddiffyn Plant. Mae'r BILI wedi nodi bod hyfforddiant ar Amddiffyn Oedolion sy'n Agored i Niwed (POVA) yn hanfodol ar gyfer pob aelod o'r staff, ac er bod y niferoedd wedi eu darparu, mae'n anodd penderfynu beth yw'r sefyllfa wirioneddol oherwydd bod y ffigurau'n awgrymu mai dim ond nifer fechan o aelodau staff sydd wedi cwblhau'r hyfforddiant hwn. Darparwyd tystiolaeth hefyd o'r camau a gymerwyd yn dilyn digwyddiadau yn ymwneud ag amddiffyn plant, ynghyd â thystiolaeth i ddangos bod y staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau i amddiffyn pobl sy'n agored i niwed. Mae'r fersiwn ddiwygiedig o'r polisi POVA ar gael ar

wefan y BILI, a hefyd anfonwyd memo yn ddiweddar yn lledaenu'r fersiwn ddiwygiedig o'r ddogfen. Cynrychiolir y BILI hefyd yng Nghyfarfodydd Pwyllgor Amddiffyn Oedolion Powys.

S17.4 Mae polisiâu wedi'u sefydlu sy'n ymdrin ag archwiliadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol (SCT), POVA a'r Ddeddf Amddiffyn Plant (PoCA). Fodd bynnag, nid oes unrhyw arwydd bod archwiliadau wedi eu cynnal o ran y rhain.

S17.5 Rydym felly'n asesu bod y BILI yn **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol a Chanlyniadau Gweithredol/Clinigol ac yn **Ymatebol** ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

**Safon 25:** *Mae cyrff gofal iechyd yn defnyddio systemau gwybodaeth effeithiol a thechnoleg gwybodaeth integredig i gefnogi a gwella'r gofal ar gyfer cleifion, ac wrth gomisiynu a chynllunio gwasanaethau.*

S25.1 Asesodd y BILI ei hun fel bod yn **Ddatblygol** ar y lefel Gorfforaethol ac yn **Ymatebol** ar y lefelau Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr. *[Y llynedd, daeth ein hasesiad ni i'r casgliad bod y BILI yn **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol a Phrofiad y Defnyddiwr ac yn **Ymatebol** ar y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol.]*

S25.2 Mae Strategaeth Technoleg a Rheoli Gwybodaeth (IM&T) wedi'i sefydlu. Yn ogystal, ceir pwyslais sefydliadol ar IM&T ar lefel y Bwrdd gan fod y Strategaeth yn gysylltiedig ag amcanion BILI Powys, fel y nodir yn ei ddogfennau strategol allweddol. Heblaw am adroddiadau cyfarfodydd penodol, nid yw'n ymddangos bod unrhyw fath o ddull adrodd ar lefel uchel ar gael i sicrhau'r Bwrdd o effeithiolrwydd IM&T a sut y mae'n dylanwadu ar gomisiynu a darparu gwasanaethau.

S25.3 Yn sefydliadol, mae'r Ganolfan Gwasanaeth i Fusnesau, a reolir gan BILI Powys, yn cyflwyno her o ran sicrhau bod anghenion amrywiol gwahanol Fyrddau Iechyd Lleol yn cael eu hystyried tra ei bod yn sicrhau cydlynid sy'n

adlewyrchu arbedion maint a chydymffurfiad â chanllawiau cenedlaethol. Ceir nifer o enghreifftiau o ddatblygiadau IM&T sy'n effeithio ar wasanaethau yn uniongyrchol, fel y gwelwyd yng nghofnodion y BILI a dogfennau'r Ganolfan Gwasanaeth i Fusnesau.

S25.4 Ceir pryder ynglŷn â chyllido hyfforddiant, ac nid oedd unrhyw gynllun hyfforddi cyffredinol i'w weld ar gyfer y staff. Er bod systemau unigol yn cynnwys dulliau rheoli ar gyfer cynnydd a hyfforddiant, prin yw'r rheolaeth sefydliadol ar lefel uchel. Er yr honnir bod y staff wedi derbyn hyfforddiant llawn, ychydig o dystiolaeth sydd ar gael i gefnogi hyn. Mae'r adroddiad gweithrediadau Technoleg Gwybodaeth yn canolbwyntio'n llwyr ar berfformiad technegol y rhwydwaith mewnol ac nid yw'n ymwneud â phrofiad defnyddwyr, ac er bod nifer o bolisiâu ar gael, nid yw'n eglur pa ddulliau sy'n sicrhau cydymffurfiad.

S25.5 Rydym yn cytuno bod y BILI yn **Ddatblygol** ar y lefel Gorfforaethol ac yn **Ymatebol** ar y lefelau Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

**Safon 26:** *Mae gan gyrff gofal iechyd brosesau rheoli cofnodion effeithiol wedi'u sefydlu i sicrhau:*

- a. bod y sefydliad, o'r funud y caiff cofnod ei greu nes iddo gael ei ddileu'n derfynol, yn cynnal y wybodaeth mewn modd sy'n ateb diben gwreiddiol ei chasglu, ac yn dileu'r wybodaeth yn briodol pan nad oes ei hangen arnynt mwyach; a*
- b. bod gwybodaeth am gleifion yn cael ei chadw'n gyfrinachol.*

S26.1 Asesodd y BILI ei hun fel bod yn **Ddatblygol** ar y tair lefel. [*Y llynedd, daeth ein hasesiad ni i'r casgliad bod y BILI yn **Ddatblygol** ar y lefel Gorfforaethol ac yn **Ymatebol** ar y lefelau Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.*]

S26.2 Mae Strategaeth Rheoli Cofnodion gynhwysfawr wedi ei sefydlu, ac mae'n ymddangos ei bod yn gyfredol a bod y newidiadau dan reolaeth briodol. Fodd bynnag, dogfen rheoli gweithredol i raddau helaeth yw'r

Strategaeth ei hun, ac nid yw'n gosod fframwaith strategol (e.e. cyflwyno, a datblygu cofnodion electronig ar gyfer cleifion yn y dyfodol, ynghyd â'r goblygiadau i'r BILI).

S26.3 Er bod yr holl safonau a pholisïau perthnasol wedi eu sefydlu, nid yw'n eglur sut y mae'r Bwrdd yn cynnal ymwybyddiaeth o'r sefyllfa o ran cydymffuriad. Fodd bynnag, mae'r adroddiad Dangosydd Perfformiad Allweddol (KPI) yn dangos rhywfaint o bwyslais gweithredol ar gyflwr cofnodion yn y BILI.

26.4 Mae'r BILI wedi gweithredu prosesau sefydlu, ac mae wedi cyflwyno'r gallu i gyfyngu mynediad at systemau lle na cheir gwybodaeth am bolisïau perthnasol. Fodd bynnag, mae'r broses gyfan o reoli cywirdeb cofnodion yn ymddangos yn eithaf beichus.

26.5 Prin yw'r dystiolaeth o sut y mae'r BILI yn monitro ac adolygu ei systemau a'i brosesau rheoli cofnodion, nac o sut y mae'n sicrhau bod gwelliant parhaus yn digwydd.

26.6 Rydym yn cytuno ag asesiad y BILI o fod yn **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol a Chanlyniadau Gweithredol/Clinigol, ond rydym yn asesu bod y BILI yn **Ymatebol** ar lefel Profiad y Defnyddiwr.



## **5. A gyflawnwyd gwelliannau ar gyfer y Safonau hynny lle yr aseswyd bod BILI Powys yn Ymwybodol neu'n Ymatebol yn 2006-07?**

Yn 2006-07, dangosodd BILI Powys ei fod yn gweithredu ar lefel aeddfedrwydd **Datblygol** neu uwch ar gyfer 11 o'r 32<sup>6</sup> safon. Eleni, rydym wedi edrych eto ar y 21 safon lle yr aseswyd ei fod yn **Ymwybodol** neu'n **Ymatebol** ar un neu fwy o'r lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr. Adroddwyd ar naw o'r Safonau hyn [Safonau 4, 6, 7, 8, 9, 15, 17, 25 a 26] yn Adran 4.

### **Safon 1**

*Ceisir barn cleifion, defnyddwyr gwasanaeth, eu gofalwyr a'u perthnasau, a'r cyhoedd, ac fe'i hystyrir wrth lunio, cynllunio, darparu, adolygu a gwella'r gwasanaethau gofal iechyd ac wrth eu hintegreiddio â'r gwasanaethau gofal cymdeithasol.*

S1.1 Fel rhan o'i asesiad yn 2007-08, daeth y BILI i'r casgliad ei fod yn **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr. *[Y llynedd, daeth ein hasesiad ni i'r casgliad bod y BILI yn **Ddatblygol** ar y lefel Gorfforaethol ac yn **Ymatebol** ar y lefelau Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr]*

S1.2 Mae strategaethau, polisiau a gweithdrefnau wedi'u sefydlu i sicrhau cydymffurfiad â'r Safon hon, gan gynnwys strategaeth Cynnwys y Cleifion a'r Cyhoedd.

S1.3 Mae camau hefyd wedi eu cymryd gan y BILI i sicrhau cydymffurfiad â'r Safon hon, gan gynnwys:

---

<sup>6</sup> Mae tabl sy'n cymharu'r lefelau aeddfedrwydd ar gyfer y safonau hynny nad ydym wedi'u hasesu eleni yn erbyn lefelau aeddfedrwydd 2006-07 a ddilyswyd, wedi'i ddarparu yn Atodiad 3.

- Ailsefydlu'r Pwyllgor Cynnwys y Cleifion a'r Cyhoedd sydd â chysylltiadau ffurfiol â'r Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles a grwpiau partner eraill.
- Hysbysebwr cyfarfodydd y Bwrdd yn y wasg leol a gwahoddir y cyhoedd i gyflwyno cwestiynau i'r Bwrdd.
- Cyflwyno nifer o grwpiau cynllunio gwasanaeth ar lefel Gyfarwyddiaethol sy'n annog y cyhoedd, cleifion a gofalwyr i gymryd rhan. Mae'r rhain yn cynnwys grŵp Defnyddwyr Iechyd Meddwl, y grŵp 'Insight' yn y Gwasanaethau i Blant a'r grŵp defnyddwyr Diabetes. Defnyddir y rhain i annog cleifion, gofalwyr, perthnasau a'r cyhoedd i gyfrannu at wella effeithiolrwydd ac ansawdd y gofal a'r gwasanaethau a ddarperir.
- Monitro gwaith y grŵp Cydraddoldeb gan y Pwyllgor Cynnwys y Cleifion a'r Cyhoedd (PPI).
- 'Treialu' holiaduron boddhad cleifion mewnol Cyngorau Iechyd Cymuned yn ysbyty cymunedol y Drenewydd ym mis Tachwedd 2007.

S1.4 Mae'r BILI hefyd wedi dangos ei fod wedi gwneud cynnydd o ran rhoi sylw i'r materion a amlygwyd gennym y llynedd ynglŷn â'r Safon hon. Mae'r mentrau y mae wedi'u sefydlu yn cynnwys:

- Prosiect Llanfair ym Muallt sy'n brosiect arloesol a arweinir gan dîm o Gyngor Sir Powys sy'n gweithio ar y cyd gyda Bwrdd Iechyd Lleol Powys a meddyg teulu lleol yn Llanfair ym Muallt i gynllunio a datblygu model newydd o ofal yr ymgynghorir yn llawn arno.
- Digwyddiadau ymgynghori sy'n ymwneud â nifer o faterion, gan gynnwys Oedi wrth Drosglwyddo Gofal, Plant a Phobl Ifanc, dyfodol Unedau Mân Anafiadau, Prosiect Dyfodol Clinigol Gwent a chynllun datblygu Canolfan Asesu Clinigol De Powys.
- Gwaith ad-drefnu diweddar yn ysbyty Aberhonddu sydd wedi golygu cryn gyfraniad gan y grŵp staff a chleifion.

S1.5 Rydym o'r farn bod cynnydd da wedi ei wneud o ran y Safon hon, gyda newidiadau amlwg wedi'u gwneud o ganlyniad i adborth gan ddefnyddwyr.

S1.6 Rydym felly'n cytuno bod y BILL yn **Ddatblygol** ar y tair lefel ar gyfer y Safon hon.

## **Safon 2**

*Mae'r gwaith o gynllunio a darparu gofal iechyd:*

- a. yn cyd-fynd â phrofiadau, safbwyntiau a dymuniadau cleifion a defnyddwyr gwasanaeth;*
- b. yn bodloni anghenion iechyd y boblogaeth a wasanaethir;*
- c. yn seiliedig ar dystiolaeth ac arferion gorau y cytunwyd arnynt yn genedlaethol; ac*
- ch. yn sicrhau bod pawb yn cael yr un mynediad at wasanaethau.*

S2.1 Fel rhan o'i asesiad yn 2007-08, daeth y BILL i'r casgliad ei fod yn **Ymatebol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr. *[Y llynedd, daeth ein hasesiad ni i'r casgliad bod y BILL yn **Ymatebol** ar y tair lefel.]*

S2.2 Mae'r BILL yn cydnabod bod hwn yn faes lle y mae angen gweithredu ar fyrder yn 2008-2009. Mae angen adolygu'r Strategaeth Llywodraethu Clinigol, ynghyd â datblygu rhaglen archwilio ac effeithiolrwydd clinigol gadarn.

S2.3 Darparwyd peth tystiolaeth i ddangos bod archwiliadau wedi'u cynnal, ond unwaith eto, mae'r BILL yn cydnabod yr angen am raglen fwy cadarn.

S2.4 Mae cynnydd yn erbyn y Safon hon wedi bod yn araf, ac mae'r BILL yn cydnabod y bu'n anodd ei gyflawni oherwydd prinder staff clinigol mewn rhai ardaloedd, ac o ganlyniad, rydym yn cytuno bod y BILL yn **Ymatebol** ar y tair lefel.

### **Safon 3**

*Mae cleifion sydd ag anghenion iechyd brys yn cael mynediad at ofal priodol yn brydlon ac o fewn terfynau amser cenedlaethol a gaiff eu pennu'n flynyddol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.*

S3.1 Fel rhan o'i asesiad yn 2007-08, daeth y BILI i'r casgliad ei fod yn **Ddatblygol** ar y lefel Gorfforaethol, ac yn **Ymatebol** ar y lefelau Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr. [Y llynedd, daeth ein hasesiad ni i'r casgliad bod y BILI yn **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol a Chanlyniadau Gweithredol/Clinigol ac yn **Ymatebol** ar lefel Profiad y Defnyddiwr]

S3.2 Mae'r Bwrdd yn monitro cydymffurfiad â thargedau mynediad brys trwy ddulliau hysbysu ei dîm comisiynu.

S3.3 Mae'r BILI yn cydnabod bod angen cyflwyno monitro perfformiad systematig a rheolaidd ar gyfer ei wasanaethau a ddarperir ac a gomisiynir. Prin oedd y dystiolaeth hefyd i ddangos sut y mae cleifion yn cael eu hysbysu am berfformiad yn erbyn targedau mynediad brys ac amseroedd aros cenedlaethol, ynghyd â'r dewisiadau sydd ar gael iddynt i gael mynediad at wasanaethau.

S3.4 Rydym felly'n cytuno bod y BILI yn **Ddatblygol** ar y lefel Gorfforaethol ac yn **Ymatebol** ar y lefelau Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

### **Safon 10**

*Mae cyrff gofal iechyd yn sicrhau nad yw pobl sy'n derbyn gofal iechyd yn destun unrhyw wahaniaethu amlwg ar sail oed, rhyw, anabledd, ethnigrwydd, hil, crefydd, na thueddfryd rhywiol.*

S10.1 Fel rhan o'i asesiad yn 2007-08, daeth y BILI i'r casgliad ei fod yn **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol a Chanlyniadau Gweithredol/Clinigol ac yn **Ymatebol** ar lefel Profiad y Defnyddiwr [Y llynedd, daeth ein hasesiad ni i'r

*casgliad bod y BILL yn **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol a Chanlyniadau Gweithredol/Clinigol ac yn **Ymatebol** ar lefel Profiad y Defnyddiwr.]*

S10.2 Mae'r Bwrdd yn cydnabod ei gyfrifoldebau o ran cydraddoldeb ac amrywiaeth ar gyfer ei wasanaethau a ddarperir ac a gomisiynir. Mae nifer o strategaethau a pholisïau wedi'u sefydlu i fynd i'r afael â'r Safon hon, ac mae perfformiad yn erbyn y rhain yn cael ei fonitro gan y Bwrdd bob tri mis trwy ei adroddiadau comisiynu a'r cerdyn sgorio cytbwys.

S10.3 Sicrhawyd bod hyfforddiant perthnasol ar gael, ond nid yw'n eglur faint o'r staff sydd wedi ei dderbyn. Ceir tystiolaeth fod camau wedi eu cymryd gan y BILL, gyda chynnydd wedi ei wneud mewn rhai meysydd. Fodd bynnag, mae angen datblygu dull mwy cydlynol a chyson o fonitro, ac mae'r Bwrdd yn cydnabod hyn.

S10.4 Rydym felly'n cytuno bod y BILL yn **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol a Chanlyniadau Gweithredol/Clinigol ac yn **Ymatebol** ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

**Safon 11:** *Mae cyrff gofal iechyd yn sicrhau:*

- a. bod triniaethau a gofal clinigol yn cael eu darparu gan bobl broffesiynol ym maes gofal iechyd sy'n gwneud penderfyniadau clinigol ar sail tystiolaeth;*
- b. y caiff triniaethau a gofal clinigol eu cynnal o dan oruchwyliaeth ac arweiniad staff clinigol priodol;*
- c. bod clinigwyr yn parhau i ddiweddarau eu sgiliau a'r technegau sy'n berthnasol i'w gwaith, gan gynnwys adolygiadau cymheiriaid; a*
- ch. bod clinigwyr yn archwilio ac yn adolygu'r gwasanaethau clinigol yn rheolaidd.*

S11.1 Fel rhan o'i asesiad yn 2007-08, daeth y BILL i'r casgliad ei fod yn **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol a Phrofiad y Defnyddiwr ac yn **Ymatebol** ar y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol. *[Y llynedd, daeth ein hasesiad ni i'r casgliad bod y BILL yn **Ddatblygol** ar y lefel Gorfforaethol, ac yn **Ymatebol** ar y lefelau Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.]*

S11.2 Mae amrywiaeth o bwyllgorau wedi eu sefydlu gyda strwythurau hysbysu perthnasol i sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhoi i'r Bwrdd am faterion sy'n ymwneud â llywodraethu, rheoli risg ac archwilio. O ran gwasanaethau a gomisiynir, mae trefniadau wedi eu gwneud trwy gyfarfodydd partneriaeth i drafod a chodi materion sy'n ymwneud â gofal a thriniaethau clinigol.

S11.3 Mae rhaglen archwilio flynyddol hefyd wedi ei sefydlu, a hysbysir Grŵp Archwilio a Meddygol y BILI am archwiliadau ac adolygiadau o ofal clinigol. Cynorthwyir y gwaith archwilio mewn rhai meysydd gan grwpiau proffesiynol sy'n cyfarfod bob tri mis.

S11.4 Ers y llynedd, mae'r BILI wedi cyflwyno dull hunanasesu ar lefel gyfarwyddiaethol, ynghyd â phroses adroddiadau eithrio, sydd wedi galluogi'r Bwrdd i fonitro cynnydd yn fwy effeithiol ar draws y sefydliad.

S11.5 Ceir tystiolaeth fod y BILI yn cydnabod y materion sy'n ymwneud â goruchwyliaeth glinigol ac mae polisi wedi ei sefydlu. Fodd bynnag, mae'r adroddiad eithrio llywodraethu clinigol yn awgrymu bod problemau wedi bod ynglŷn â rhyddhau staff i fynychu hyfforddiant, yn ogystal â thrafferthion o ran gweithredu'r polisi.

S11.6 Rydym felly'n cytuno bod y BILI yn **Ddatblygol** ar y lefel Gorfforaethol ond yn dal i fod yn **Ymatebol** ar y lefelau Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

### **Safon 20**

*Mae cyrff gofal iechyd yn gweithio i wella'r gofal ar gyfer cleifion a gwella boddhad y staff yn barhaus, drwy ddarparu arferion gorau o ran rheoli adnoddau dynol.*

S20.1 Fel rhan o'i asesiad yn 2007-08, daeth y BILI i'r casgliad ei fod yn **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr. *[Y llynedd, daeth ein hasesiad ni i'r casgliad bod y BILI*

yn **Ymatebol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.]

S20.2 Mae'r Bwrdd yn monitro gweithredu strategaeth Adnoddau Dynol Cymru Gyfan 'Cynllun Cyflenwi' yn rheolaidd, ynghyd â'r cynnydd a gyflawnir mewn meysydd allweddol. Mae Strategaeth Hyfforddi a Datblygu wedi ei sefydlu, ond 2004 yw'r dyddiad sydd arni. Fodd bynnag, adolygir y cynllun gweithredu sy'n sail i'r strategaeth yn ffurfiol bob blwyddyn trwy adroddiad a gyflwynir i'r Pwyllgor Adnoddau Dynol. Ceir tystiolaeth sy'n dangos bod yr holl gamau allweddol yn y strategaeth wedi eu datblygu, ond mae angen cyflawni mwy o waith ar rai ohonynt er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu hymsefydlu'n llawn yn y sefydliad. Mae'r BILI wedi datgan bod y strategaeth am gael ei hadolygu'n llawn, a bod trafodaethau/cyfarfodydd wedi dechrau gyda'r rheolwyr.

S20.3 Darparwyd manylion ynglŷn â mentrau gwella gwasanaethau sydd wedi eu datblygu a'u gweithredu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ac roedd y rhain yn cynnwys 'Clwb Gofal y Coesau Llandrindod' a gychwynnwyd gan y tîm nyrsio cymunedol, y 'Prosiect Ymchwil Diarch' a gynhelir gan y nyrs glinigol arbenigol ar gyfer diabetes, gwelliannau amgylcheddol mewn canolfannau i blant yn Aberhonddu ac yn Ynys y Plant, a gwaith ymchwil a arweinir gan y staff ar gynnwys defnyddwyr mewn gwasanaethau iechyd meddwl.

S20.4 Ar hyn o bryd, mae adran Adnoddau Dynol y BILI yn gweithio gyda'r Asiantaeth Genedlaethol Arwain ac Arloesi mewn Gofal Iechyd i adolygu ei wasanaethau AD, gyda golwg ar ddatblygu model partner busnes AD. Mae'r BILI wedi datblygu dulliau i bennu pa mor dda y mae prosesau AD yn gweithio.

S20.5 Rydym o'r farn bod cynnydd wedi ei wneud gan y BILI a bod camau wedi eu cymryd i roi sylw i'r Safon hon. Rydym felly'n cytuno ag asesiad y

BILI o fod yn **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

**Safon 21:** *Mae cyrff gofal iechyd:*

- a. *yn cynnal yr holl gamau archwilio gofynnol ar gyfer cyflogaeth ac yn sicrhau bod yr holl staff cymwysedig, boed yn gyflogedig neu ar gontract, wedi eu cofrestru â'r cyrff perthnasol;*
- b. *yn gofyn i'r holl staff proffesiynol cyflogedig gydymffurfio â'u codau ymarfer ac ymddygiad proffesiynol; ac*
- c. *yn rhoi sylw, pan fo hynny'n briodol, i dangynrychioli o ran grwpiau ethnig.*

S21.1 Fel rhan o'i asesiad yn 2007-08, daeth BILI i'r casgliad ei fod yn **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr. *[Y llynedd, daeth ein hasesiad ni i'r casgliad bod y BILI yn **Ymatebol** ar y lefelau Corfforaethol a Chanlyniadau Gweithredol/Clinigol ac yn **Ymwybodol** ar lefel Profiad y Defnyddiwr.]*

S21.2 Mae'r BILI wedi gwneud cynnydd yn erbyn y Safon hon ar y lefel Gorfforaethol ac mae'n amlwg bod yr agenda strategol yn cael ei datblygu. Cyflwynir adroddiadau i'r Bwrdd sy'n darparu sicrwydd o'r sefyllfa ynglŷn â chofrestru proffesiynol.

S21.3 Mae'r BILI yn gweithio gyda Chanolfan Cydraddoldeb a Hawliau Dynol y GIG i feithrin gallu er mwyn sicrhau bod cleifion a staff yn cael eu trin yn deg ac yn unol â'u hanghenion. Mae gwefan y BILI wedi ei datblygu ac mae'n darparu dolenni i ddogfennau allweddol ynglŷn â materion megis cydraddoldeb hiliol, hawliau dynol a chydraddoldeb anabledd. Cymeradwywyd Cynllun Cydraddoldeb Anabledd y BILI gan y Bwrdd ym mis Tachwedd 2007.

S21.4 Ceir tystiolaeth i ddangos bod archwiliadau cyflogaeth priodol yn cael eu cynnal yn y BILI. Yn ogystal, ceir polisi a gweithdrefn ar gyfer dilysu a monitro rhifau cofrestru, ynghyd ag amrywiaeth o bolisiau a gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â thorri rheolau ymddygiad proffesiynol.

S21.5 Rhoddir gwybodaeth i'r Bwrdd am dorri Arfer Proffesiynol drwy'r Adroddiad Cysylltiadau Gweithwyr. Cofnodir yr holl fanylion am achosion o dorri arfer o'r fath ar system Rheoli Achos y BILI.

S21.6 Rydym o'r farn bod y BILI wedi cymryd camau i roi sylw i'r materion sy'n ymwneud â'r Safon hon, ac rydym yn cytuno ag asesiad y BILI o fod yn **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol a Chanlyniadau Gweithredol/Clinigol, ond rydym yn ystyried ei fod yn **Ymatebol** ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

**Safon 22:** *Mae cyrff gofal iechyd yn sicrhau bod staff:*

- a. yn cael eu recriwtio'n briodol, eu bod wedi cael hyfforddiant priodol a bod ganddynt y cymwysterau priodol ar gyfer y gwaith;*
- b. yn cymryd rhan mewn rhaglenni sefydlu a rhaglenni hyfforddi gorfodol; ac*
- c. yn cymryd rhan mewn cynllun datblygu proffesiynol a galwedigaethol parhaus.*

S22.1 Fel rhan o'i asesiad yn 2007-08, daeth y BILI i'r casgliad ei fod yn **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr. *[Y llynedd, daeth ein hasesiad ni i'r casgliad bod y BILI yn **Ymatebol** ar y lefel Gorfforaethol ac yn **Ymwybodol** ar y lefelau Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.]*

S22.2 Mae Strategaeth Hyfforddi a Datblygu'r BILI yn ddyddiedig 2004, ac felly mae angen ei hadolygu. Fodd bynnag, adolygir y cynllun gweithredu sy'n cyd-fynd â'r strategaeth yn flynyddol. Ceir tystiolaeth fod camau wedi eu cymryd gan y BILI ers asesiad y llynedd o ran ymsefydlu prosesau parhaus a systematig ar gyfer hyfforddiant a datblygiad. Mae'n ofynnol i bob cyfarwyddiaeth gyflwyno dadansoddiad o anghenion hyfforddi bob blwyddyn ar gyfer eu gwasanaeth, sy'n sail i raglen Hyfforddi a Datblygu'r BILI. Cyflwynir adroddiad i'r Bwrdd sy'n nodi'r anghenion a sut y dylid eu bodloni.

S22.3 Mae Rhaglen Hyfforddiant Sefydlu Corfforaethol ar gael ar gyfer pob aelod newydd o staff. Hysbysir staff am raglenni hyfforddi drwy e-bost a'r

System Rheoli Dysgu sy'n galluogi'r staff a rheolwyr i reoli eu hanghenion hyfforddi a datblygu.

S22.4 Er bod y System Rheoli Dysgu wedi ei gweithredu, mae'r BILI wedi nodi bod angen addysgu a hyfforddi'r staff ymhellach o ran hyn. Ceir tystiolaeth fod cynnydd wedi ei wneud o ran gwerthusiadau a rheoli perfformiad ers y llynedd, gyda 97.4% o'r staff wedi cael Cynllun Datblygu Personol (CDP) a 100% o'r staff meddygol wedi cael gwerthusiad.

S22.5 Ni ddarparwyd manylion ynghylch digwyddiadau sy'n ymwneud â materion cymhwysedd. Er ei bod yn bwysig cydnabod cyfrinachedd unigol, byddai adroddiadau cryno ar yr amgylchiadau a'r camau a gymerwyd o ganlyniad iddynt wedi dangos cydymffurfiad â'r elfen hon o'r Safon.

S22.6 Rydym yn asesu bod y BILI yn **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

**Safon 23:** *Mae cyrff gofal iechyd yn sicrhau bod staff yn cael eu cefnogi gan:*

- a. brosesau sy'n caniatáu iddynt fynegi pryderon ynghylch unrhyw agwedd ar y broses ddarparu, y driniaeth ohonynt neu'r broses reoli, a hynny'n gyfrinachol a heb beryglu eu sefyllfa; a*
- b. rhaglenni datblygiad sefydliadol a rhaglenni datblygiad personol sy'n cydnabod cyfraniad a gwerth y staff.*

S23.1 Fel rhan o'i asesiad yn 2007-08, daeth y BILI i'r casgliad ei fod yn **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol a Chanlyniadau Gweithredol/Clinigol ac yn **Ymatebol** ar lefel Profiad y Defnyddiwr. *[Y llynedd, daeth ein hasesiad ni i'r casgliad bob y BILI yn **Ymatebol** ar y tair lefel.]*

S23.2 Mae gan y BILI amrywiaeth gynhwysfawr o bolisiâu a gweithdrefnau wedi'u sefydlu i annog ac arwain arfer da yn y maes hwn, ac adolygir y rhain bob tair blynedd. Sicrheir bod y staff yn ymwybodol o'r polisiâu ar adeg hyfforddiant sefydlu, a darperir hyfforddiant ar y polisi urddas yn y gweithle. Mae rheolwyr Adnoddau Dynol a chynghorwr staff y BILI hefyd ar gael yn gyfrinachol i aelodau'r staff.

S23.3 Rydym yn cytuno ag asesiad y BILI o fod yn **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol a Chanlyniadau Gweithredol/Clinigol ac yn **Ymatebol** ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

Mae angen i'r BILI ddarparu enghreifftiau penodol ar lefel Profiad y Defnyddiwr i ddangos sut y mae'r BILI yn defnyddio'r gweithdrefnau sydd wedi'u sefydlu, a darparu tystiolaeth i ddangos bod gwersi wedi'u dysgu o ganlyniad iddynt.

**Safon 24:** *Mae cyrff gofal iechyd yn cydweithio â phartneriaid gofal cymdeithasol ac eraill i fodloni anghenion iechyd eu poblogaeth drwy:*

- a. fod â gweithlu sy'n briodol o sefydledig ac sydd â'r gymysgedd briodol o sgiliau ym mhob rhan o'r gymuned; a*
- b. sicrhau bod y gwasanaethau'n gwella'n barhaus drwy ddatblygu ffyrdd gwell o weithio.*

S24.1 Fel rhan o'i asesiad yn 2007-08, daeth y BILI i'r casgliad ei fod yn **Ymatebol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr. *[Y llynedd, daeth ein hasesiad ni i'r casgliad bod y BILI yn **Ymatebol** ar y lefelau Corfforaethol a Phrofiad y Defnyddiwr ac yn **Ymwybodol** ar y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol.]*

S24.2 Mae rhai cynlluniau wedi'u sefydlu ar lefel strategol ar gyfer cyfuno cynlluniau sy'n ymwneud â'r gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol, ac mae trefniadau datblygu gweithlu'r BILI yn cyd-fynd â'r gofynion a nodir yn 'Y Cynllun Gwaith'.

S24.3 Gwnaed mwy o waith yn y Gyfarwyddiaeth Iechyd Meddwl i ddatblygu swyddogaethau newydd sy'n gysylltiedig â'r Ddeddf Iechyd Meddwl newydd, mewn cydweithrediad â'r staff gofal cymdeithasol.

S24.4 Ar lefel profiad y defnyddiwr, ni ddarparwyd enghreifftiau penodol o sut y mae profiad y claf/defnyddiwr gwasanaeth wedi gwella o ganlyniad i wneud

newidiadau i brosesau gwaith. O ganlyniad, roedd yn anodd i ni benderfynu pa welliannau a wnaed ers 2006/07.

S24.5 Rydym yn cytuno bod y BILI yn **Ymatebol** ar y lefelau Corfforaethol a Chanlyniadau Gweithredol/Clinigol, ond rydym yn ystyried mai dim ond **Ymwybodol** ydyw ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

**Safon 27:** *Mae trefniadau llywodraethu sy'n cynrychioli arferion da wedi'u sefydlu sydd:*

- a. yn cymhwyso egwyddorion llywodraethu corfforaethol a chlinigol cadarn;*
- b. yn sicrhau rheoli ariannol cadarn, ac atebolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau;*
- c. yn cefnogi'r holl staff yn ymarferol i hybu gonestrwydd, uniondeb, atebolrwydd a'r egwyddor o fod yn agored, ac i ddefnyddio adnoddau'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol.*
- ch. yn cynnwys asesiadau risg a rheoli risg mewn modd systematig; ac*
- d. wedi eu hintegreiddio ar draws yr holl gymunedau iechyd a rhwydweithiau clinigol.*

S27.1 Fel rhan o'i asesiad yn 2007/08, daeth y BILI i'r casgliad ei fod yn **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr. *[Y llynedd, daeth ein hasesiad ni i'r casgliad bod y BILI yn **Ymatebol** ar y tair lefel.]*

S27.2 Mae tystiolaeth fod y BILI wedi gwneud cynnydd yn erbyn y Safon hon ers y llynedd. Mae strwythur pwyllgor newydd wedi'i weithredu, ac mae'r diwygiadau gofynnol wedi'u gwneud i'r rheolau sefydlog. Nododd y BILI y bu pryderon ynglŷn dyblygiad a maint yr agenda, er bod y strwythur newydd wedi darparu canolbwynt gwell mewn rhai meysydd, er enghraifft, rheoli perfformiad. O ganlyniad, mae adolygiad pellach wedi cychwyn, a fydd yn cynnwys materion a nodwyd o'r adolygiadau a gynhaliwyd gan Uned Cynorthwyo a Datblygu Llywodraethu Clinigol Llywodraeth Cynulliad Cymru a Thîm y Prosiect Llywodraethu Iechyd.

S27.3 Mae hysbysu am faterion cyllid ar lefel y Bwrdd yn fwy cadarn oherwydd bod y Cyfarwyddwr Cyllid bellach yn gyfrifol am gomisiynu a chyllid.

S27.4 Mae trefniadau wedi'u sefydlu i alluogi'r Bwrdd i gefnogi didwylledd, uniondeb ac atebolrwydd ac i gefnogi rheoli risg. Mae cyfrifoldebau ar lefel y Bwrdd wedi'u diffinio, a llunnir adroddiadau rheolaidd ar gyfer y Cyfarwyddwyr a'r Bwrdd sy'n ffurfio rhan o'r Adroddiad Rheoli Risg blynyddol. Fodd bynnag, mae'r BILI wedi bod heb Reolwr Risg am y chwe mis diwethaf, ac mae hyn wedi effeithio ar reoli a chydlynu cofrestrï risg y sefydliad. Mae'r Pwyllgor Llywodraethu a Rheoli Risg yn monitro gweithgareddau sawl is-bwyllgor sy'n monitro cydymffurfïad â'r safonau a'r polisiau perthnasol.

S27.5 Darparodd y BILI dystiolaeth o sut y mae cynorthwyo a datblygu llywodraethu clinigol yn swyddogaeth gydweithredol. Mewn gofal eilaidd, anogir y staff i gyfrannu at gynlluniau gwella safonau gofal iechyd y gyfarwyddïaeth ac adroddiadau eithrio. Darparwyd dystiolaeth hefyd o sut y mae'r Adran Llywodraethu Clinigol yn ymgysylltu â'r staff i ddarparu cyfleoedd cefnogi a datblygu trwy gysgodi a sesiynau hyfforddi, ynghyd â chynghor ar y ffôn a thrwy e-bost. Cynhwysir trefniadau llywodraethu hefyd mewn digwyddïadau rheolaidd hyfforddiant sefydlu'r staff.

S27.6 Sicrheir bod y staff yn ymwybodol o drefniadau rheolaeth ariannol trwy'r Brïff Allweddol misol, sydd hefyd yn cynnwys gwybodaeth am gyllid. Ar hyn o bryd, mae'r Grŵp Cyfathrebu yn cynnal adolygiad o effeithiolrwydd y Brïff Allweddol fel dull o raeadru gwybodaeth.

S27.7 Ar lefel Profïad y Defnyddiwr, nid oedd y BILI yn gallu darparu dystiolaeth o'r flwyddyn ddiwethaf ynglŷn â'r materïon allweddol sydd wedi eu hamlygu o ran trefniadau llywodraethu a thystiolaeth o sut y mae'r rhain wedi derbyn sylw.

S27.8 O ystyried yr uchod, rydym yn asesu bod y BILI yn **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol a Chanlyniadau Gweithredol/Clinigol ac yn **Ymatebol** ar lefel Profïad y Defnyddiwr.

**Safon 28:** Mae cyrff gofal iechyd:

- a. yn sicrhau bod egwyddorion llywodraethu clinigol yn sail i waith pob tîm a phob gwasanaeth clinigol;
- b. yn gweithredu proses barhaus ar gyfer gwella ansawdd, gan gynnwys archwiliadau clinigol; ac
- c. yn sicrhau arweiniad ac atebolrwydd effeithiol gan y staff clinigol a'r rheolwyr.

S28.1 Fel rhan o'i asesiad yn 2007-08, daeth y BILI i'r casgliad ei fod yn **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr. *[Y llynedd, daeth ein hasesiad ni i'r casgliad bod y BILI yn **Ymatebol** ar y tair lefel ar gyfer y Safon hon.]*

S28.2 Mae'n amlwg bod y BILI wedi gwneud cynnydd yn erbyn y Safon hon. Mae strategaethau, polisïau a gweithdrefnau priodol wedi'u sefydlu, a cheir Pwyllgor Llywodraethu a Rheoli Risg sy'n gweithio gyda rheolwyr a chlinigwyr mewn dull cydgysylltiedig er mwyn cyflawni ansawdd da ar draws y sefydliad. Nid yw'r Strategaeth Llywodraethu Clinigol wedi ei hadolygu hyd yma, ac mae'r BILI wedi nodi y bydd hyn yn digwydd yn dilyn cam dau adolygiad yr Uned Cynorthwyo a Datblygu Llywodraethu Clinigol a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2008.

S28.3 Mae tystiolaeth fod y Pwyllgor Llywodraethu a Rheoli Risg yn monitro gweithgareddau sawl is-bwyllgor, sydd, yn eu tro, yn monitro cydymffurfriad â'r safonau gofal iechyd perthnasol. Sefydlwyd rhaglen hunanasesu ar gyfer y safonau gofal iechyd sydd wedi'i seilio ar gyfarwyddiaethau unigol, gyda'r bwriad o sicrhau bod egwyddorion llywodraethu clinigol yn cael eu hymsefydlu ym mhob rhan o'r sefydliad.

S28.4 Cynhaliwyd archwiliadau mewn gofal eilaidd, ac mae'r cynlluniau gwella wedi dangos bod y staff wedi cyfrannu mwy at weithgareddau llywodraethu clinigol. Cyflwynwyd nifer o enghreifftiau sy'n dangos sut y mae'r staff yn defnyddio egwyddorion llywodraethu clinigol i gynnal a gwella gofal cleifion.

S28.5 Rydym yn cytuno ag asesiad y BILI o fod yn **Ddatblygol** ar y tair lefel.

**Safon 30:** Mae cyrff gofal iechyd:

- a. yn rheoli rhaglenni systematig ar gyfer atal clefydon a hybu iechyd, sy'n cynnwys staff, sy'n bodloni gofynion y Fframweithiau Gwasanaeth Cenedlaethol, y cynlluniau cenedlaethol a'r blaenoriaethau o ran hybu iechyd ac atal clefydon; ac
- b. yn ystyried yr holl bolisiau cyfredol ac arfaethedig a'r wybodaeth am faterion iechyd y cyhoedd wrth ddatblygu rhaglenni iechyd y cyhoedd, rhaglenni hybu iechyd a gwasanaethau atal, ac wrth gomisiynu a darparu gwasanaethau.

S30.1 Fel rhan o'i asesiad yn 2007-08, daeth y BILI i'r casgliad ei fod yn **Ddatblygol** ar y lefelau Corfforaethol a Chanlyniadau Gweithredol/Clinigol ac yn **Ymatebol** ar lefel Profiad y Defnyddiwr. *[Y llynedd, daeth ein hasesiad ni i'r casgliad bod y BILI yn **Ddatblygol** ar y lefel Gorfforaethol ac yn **Ymatebol** ar y lefelau Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.]*

S30.2 Mae tîm iechyd y cyhoedd y BILI wedi adolygu ei flaenoriaethau yn seiliedig ar yr asesiad o anghenion lleol, ac o ganlyniad nodwyd saith maes rhaglen allweddol i dderbyn sylw ym Mhowys.

S30.3 Ar y lefelau Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr, yr un yw ymatebion y BILI â'r rhai a gyflwynwyd y llynedd, a oedd yn dangos bod y materion wedi eu cydnabod, ond heb unrhyw dystiolaeth o gymhwyso ymarferol ar draws y sefydliad.

S30.4 Rydym yn cytuno ag asesiad y BILI ei fod yn **Ddatblygol** ar y lefel Gorfforaethol, ond rydym yn ystyried mai dim ond **Ymatebol** ydyw ar y lefelau Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.



## 6. Pa mor dda y mae'r Safonau Gofal Iechyd wedi eu hymsefydlu ym mhrosesau llywodraethu a sicrhau mewnol BILI Powys?

6.1 O'r wybodaeth a gasglwyd o hunanasesiad y BILI, yr Uwchgynhadledd Gofal Iechyd a chyfarfodydd gyda Swyddfa Ranbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru ac archwilwyr mewnol BILI Powys, mae'n amlwg bod y BILI wedi cymryd camau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf i ymsefydlu'r Safonau Gofal Iechyd a'u gwneud yn rhan o brosesau llywodraethu'r sefydliad.

6.2 Rydym wedi ymgynghori ag archwilwyr mewnol BILI Powys wrth asesu pa mor dda y mae'r Safonau Gofal Iechyd wedi'u hymsefydlu ym mhrosesau llywodraethu a sicrhau mewnol BILI Powys. Yn unol â'r dull y cytunwyd arno gydag archwilwyr mewnol ymddiriedolaethau a Byrddau Iechyd Lleol ar draws Cymru, maent wedi:

- Adolygu hunanasesiad y BILI a'i gyfraniad at y rhaglen ar-lein ar gyfer y safonau hynny y cyfeiriwyd atynt yn benodol yn Natganiad o Reolaeth Fewnol y BILI, sef:
  - × **Safon 14:** *Mae cyrff gofal iechyd yn mynd ati'n barhaus ac yn systematig i adolygu a gwella'r holl agweddau ar eu gweithgareddau sy'n effeithio'n uniongyrchol ar ddiogelwch ac iechyd y cleifion, defnyddwyr gwasanaeth, aelodau'r staff a'r cyhoedd. Byddant nid yn unig yn parchu'r ddeddfwriaeth, ond hefyd yn defnyddio arferion gorau wrth asesu a rheoli risg.*
  - × **Safon 16:** *Mae gan gyrff gofal iechyd systemau ar waith:*
    - a. *i nodi pob digwyddiad yn ymwneud â diogelwch cleifion a digwyddiadau eraill y gellir eu cofnodi, a dysgu oddi wrthynt;*
    - b. *i hysbysu am ddigwyddiadau i System Genedlaethol ar gyfer Adrodd a Dysgu'r Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion (NPSA) a chyrrff eraill, yn unol â'r canllawiau presennol;*
    - c. *i ddangos eu bod wedi gwella eu harferion ar sail gwybodaeth a phrofiadau lleol a chenedlaethol a rennir sy'n deillio o'r dadansoddiad o ddigwyddiadau; ac*
    - ch. *i sicrhau bod pobl yn gweithredu yn unol â hysbysiadau a rhybuddion diogelwch, a chyfathrebiaeth arall yn ymwneud â diogelwch cleifion, o fewn y terfynau amser gofynnol.*

- × **Safon 27:** *Mae trefniadau llywodraethu sy'n cynrychioli arferion da wedi'u sefydlu sydd:*
  - a. *yn cymhwyso egwyddorion llywodraethu corfforaethol a clinigol cadarn;*
  - b. *yn sicrhau rheoli ariannol cadarn, ac atebolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau;*
  - c. *yn cefnogi'r holl staff yn ymarferol i hybu gonestrwydd, uniondeb, atebolrwydd a'r egwyddor o fod yn agored, ac i ddefnyddio adnoddau'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol;*
  - ch. *yn cynnwys asesiadau risg a rheoli risg mewn modd systematig; ac*
  - d. *wedi eu hintegreiddio ar draws yr holl gymunedau iechyd a rhwydweithiau clinigol.*
  
- × **Safon 28:** *Mae cyrff gofal iechyd:*
  - a. *yn sicrhau bod egwyddorion llywodraethu clinigol yn sail i waith pob tîm a phob gwasanaeth clinigol;*
  - b. *yn gweithredu proses barhaus ar gyfer gwella ansawdd, gan gynnwys archwiliadau clinigol; ac*
  - c. *yn sicrhau arweiniad ac atebolrwydd effeithiol gan y staff clinigol a'r rheolwyr.*

Roedd yr adolygiad o bob safon yn cynnwys adolygiad o'r 'stori' a'r dystiolaeth sy'n ei chefnogi, ac asesiad o briodoldeb hunanasesiad y BILI o'i aeddfedrwydd.

- Cynhaliwyd asesiad o'r broses a ddefnyddiwyd gan BILI Powys wrth baratoi a chwblhau'r hunanasesiad.
- Adolygwyd Cynllun Gwella Safonau Gofal Iechyd BILI Powys ar gyfer 2007-08 a'r prosesau sydd wedi'u sefydlu i fonitro ac adrodd ar gynnydd, gan roi sylw penodol i asesu pa un a wnaed gwelliannau o ran y meysydd a'r safonau hynny a oedd yn 'ymwybodol' neu'n 'ymatebol' yn ôl gwerthusiad AGIC y llynedd.
- Aseswyd pa un a yw'r Bwrdd wedi bod yn ymgysylltu'n briodol â'r broses hunanasesu ac o ran ymsefydlu'r Safonau Gofal Iechyd.

### 6.3 Rydym felly yn gallu cadarnhau:

- Bod y lefelau aeddfedrwydd a nodwyd yn hunanasesiad yr Ymddiriedolaeth ar gyfer safonau 14, 16 a 28 yn realistig ac yn gywir.

- Bod y broses a ddefnyddiwyd gan BILI Powys wrth baratoi a chwblhau eu hunanasesiad yn gadarn. Mae'r BILI yn defnyddio dull electronig sydd wedi ei seilio ar gyfarwyddiaethau i ddiweddarau ei gynnydd yn erbyn y Safonau Gofal Iechyd.
- Bod Cynllun Gwella Safonau Gofal Iechyd 2007-08 yr Ymddiriedolaeth wedi'i fonitro'n rheolaidd gan ei Phwyllgor Llywodraethu Clinigol.
- Bod aelodau'r Bwrdd wedi bod yn ymwneud â'r broses Safonau Gofal Iechyd ac y buont yn gyfrifol am adolygu hunanasesiad yr Ymddiriedolaeth yn erbyn y safonau cyn ei gyflwyno.

6.4 Mae cynllun y system reoli, pe byddid yn cydymffurfio â hi, yn ddigon cadarn i sicrhau y bydd y gweithgareddau a'r gweithdrefnau sydd wedi'u sefydlu yn cyflawni amcanion y system. Fodd bynnag, argymhellir neilltuo arweinydd yn y BILI i fod yn gyfrifol am bob Safon Gofal Iechyd unigol.



## **7. Y Camau Nesaf**

7.1 Mae'n ofynnol i BILI Powys gyflwyno Cynllun Gwella Safonau Gofal Iechyd a gymeradwywyd gan y Bwrdd i Swyddfa Ranbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cynulliad Cymru erbyn diwedd mis Hydref 2008. Bydd y Swyddfa Ranbarthol yn cytuno ar y cynllun hwn ac yn monitro'r broses o'i weithredu fel rhan o'r trefniadau rheoli perfformiad sydd wedi'u sefydlu ar gyfer GIG Cymru. Bydd ar gael ar wefan y BILI.

7.2 Bydd AGIC yn cyhoeddi adroddiad Cymru gyfan ym mis Hydref 2008, a fydd yn cynnwys y canfyddiadau o adroddiadau unigol i greu trosolwg o'r sefyllfa ledled Cymru. Bydd yr adroddiad hwn yn amlygu'r themâu allweddol a'r meysydd risg a amlygwyd gan broses asesu'r Safonau Gofal Iechyd eleni.



## Diffiniadau o Lefelau Aeddfedrwydd

	Ymwybodol	Ymatebol	Datblygol	Ymarferol	Arweiniol
<b>Corfforaethol</b>	Mae'r Bwrdd yn ymwybodol o'r materion y mae angen rhoi sylw iddynt ond nid yw'n gallu dangos penderfyniadau/camau gweithredu i fynd i'r afael â hwy.	Mae'r Bwrdd yn ymwybodol o'r materion allweddol ac wedi nodi dewisiadau sydd wedi'u blaenoriaethu, ond ni cheir tystiolaeth o gyfeiriad strategol.	Mae'r Bwrdd yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r materion allweddol trwy ddatblygu cynlluniau strategol gyda thystiolaeth o arfer da ar draws y sefydliad.	Mae'r agenda strategol yn cael ei datblygu a'i monitro gan y Bwrdd gyda thystiolaeth sylweddol o welliant parhaus ar draws y sefydliad.	Mae'r Bwrdd yn arwain yr agenda strategol trwy weithredu arfer arloesol a rennir ar draws y sefydliad a thu hwnt gydag eraill, sy'n golygu y gellir gwreiddu cynaliadwyedd hirdymor.
<b>Gweithredol</b>	Ceir ymwybyddiaeth o'r materion y mae angen rhoi sylw iddynt, ond ni ddatblygwyd unrhyw ddulliau i fynd i'r afael â hwy.	Ceir ymwybyddiaeth o'r materion allweddol y mae angen rhoi sylw iddynt a nodwyd ystod o ddewisiadau i fynd i'r afael â hwy.	Mae camau'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r materion allweddol gyda thystiolaeth o weithredu ymarferol ar draws y sefydliad.	Mae cynlluniau sydd wedi'u datblygu'n dda yn cael eu gweithredu ar draws y sefydliad sy'n mynd i'r afael â'r materion allweddol, a cheir thystiolaeth o werthuso a meincnodi sy'n arwain at welliant parhaus.	Mae tystiolaeth o arfer arloesol, a rennir ar draws y sefydliad a thu hwnt gydag eraill. Maent yn datblygu eu dulliau ymhellach i sicrhau gwelliant cynaliadwy hirdymor.
<b>Profiad y Defnyddiwr</b>	Mae profiad yr unigolyn/unigolion yn gyffredinol wael ac ni ddatblygwyd unrhyw ddulliau o fewn y gwasanaeth i fynd i'r afael â hyn.	Nid yw profiad yr unigolyn/unigolion yn dda yn gyffredinol, er bod dulliau wedi'u datblygu o fewn y gwasanaeth i fynd i'r afael â hyn.	Mae profiad yr unigolyn/unigolion yn gwella mewn sawl maes, er nad yw hyn yn gyson ar draws y sefydliad hyd yn hyn.	Mae profiad yr unigolyn/unigolion yn gyffredinol dda ym mhob maes.	Mae profiad yr unigolyn/unigolion yn rhagorol yn gyffredinol, ac mae'r gwasanaeth yn gallu dangos tystiolaeth eglur o arfer da, y gellir ei rannu.



## Atodiad 2

### Crynodeb o Lefelau Aeddfedrwydd yn ôl Safon ar gyfer y Safonau hynny a Ddilyswyd yn Annibynnol gan AGIC

#### Allwedd

L	Arweiniol
P	Ymarferol
D	Datblygol
R	Ymatebol
A	Ymwybodol

#### Safon 1

	Hunanasesiad	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	TM 3	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	TM 3	D
Profiad y Defnyddiwr	D	TM 3	D

#### Safon 2

	Hunanasesiad	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	R	TM 3	R
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	R	TM 3	R
Profiad y Defnyddiwr	R	TM 3	R

#### Safon 3

	Hunanasesiad	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	TM 3	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	R	TM 3	R
Profiad y Defnyddiwr	R	TM 3	R

#### Safon 4

	Hunanasesiad	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	TM 3	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	TM 3	D
Profiad y Defnyddiwr	D	TM 3	D

### Safon 5

	Hunanasesiad	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	TM 3	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	TM 3	D
Profiad y Defnyddiwr	D	TM 3	D

### Safon 6

	Hunanasesiad	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	R	TM 3	R
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	R	TM 3	R
Profiad y Defnyddiwr	R	TM 3	R

### Safon 7

	Hunanasesiad	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	$\frac{3}{4}$	R
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	TM 3	D
Profiad y Defnyddiwr	D	$\frac{3}{4}$	R

### Safon 8

	Hunanasesiad	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	TM 3	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	TM 3	D
Profiad y Defnyddiwr	D	TM 3	D

### Safon 9

	Hunanasesiad	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	R	TM 3	R
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	TM 3	D
Profiad y Defnyddiwr	R	TM 3	R

### Safon 10

	Hunanasesiad	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	TM 3	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	TM 3	D
Profiad y Defnyddiwr	R	TM 3	R

### Safon 11

	Hunanasesiad	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	TM 3	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	R	TM 3	R
Profiad y Defnyddiwr	D	TM 3	D

### Safon 15

	Hunanasesiad	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	TM 3	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	TM 3	D
Profiad y Defnyddiwr	D	$\frac{3}{4}$	R

### Safon 17

	Hunanasesiad	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	TM 3	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	TM 3	D
Profiad y Defnyddiwr	D	$\frac{3}{4}$	R

### Safon 20

	Hunanasesiad	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	TM 3	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	TM 3	D
Profiad y Defnyddiwr	D	TM 3	D

**Safon 21**

	Hunanasesiad	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	TM 3	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	TM 3	D
Profiad y Defnyddiwr	D	$\frac{3}{4}$	R

**Safon 22**

	Hunanasesiad	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	TM 3	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	TM 3	D
Profiad y Defnyddiwr	D	TM 3	D

**Safon 23**

	Hunanasesiad	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	TM 3	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	TM 3	D
Profiad y Defnyddiwr	R	TM 3	R

**Safon 24**

	Hunanasesiad	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	R	TM 3	R
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	R	TM 3	R
Profiad y Defnyddiwr	R	$\frac{3}{4}$	A

**Safon 25**

	Hunanasesiad	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	TM 3	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	R	TM 3	R
Profiad y Defnyddiwr	R	TM 3	R

**Safon 26**

	Hunanasesiad	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	TM 3	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	TM 3	D
Profiad y Defnyddiwr	D	$\frac{3}{4}$	R

**Safon 27**

	Hunanasesiad	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	TM 3	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	TM 3	D
Profiad y Defnyddiwr	D	$\frac{3}{4}$	R

**Safon 28**

	Hunanasesiad	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	TM 3	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	TM 3	D
Profiad y Defnyddiwr	D	TM 3	D

**Safon 30**

	Hunanasesiad	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	TM 3	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	$\frac{3}{4}$	R
Profiad y Defnyddiwr	R	TM 3	R



## Atodiad 3

### Crynodeb o Lefelau Aeddfedrwydd ar gyfer y Safonau hynny nad ydynt yn agored i Ddilysiad Annibynnol gan AGIC

#### Allwedd

L	Arweiniol
P	Ymarferol
D	Datblygol
R	Ymatebol
A	Ymwybodol

#### Safon 12

	Aseiad AGIC 2006-07	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Hunanasesiad 2007- 08
Corfforaethol	D	TM 3	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	TM 3	D
Profiad y Defnyddiwr	D	TM 3	D

#### Safon 13

	Aseiad AGIC 2006-07	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Hunanasesiad 2007- 08
Corfforaethol	P	TM 3	P
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	P	TM 3	P
Profiad y Defnyddiwr	P	TM 3	P

#### Safon 14

	Aseiad AGIC 2006-07	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Hunanasesiad 2007- 08
Corfforaethol	D	TM 3	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	TM 3	D
Profiad y Defnyddiwr	D	TM 3	D

#### Safon 16

	Aseiad AGIC 2006-07	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Hunanasesiad 2007- 08
Corfforaethol	D	Ž	P
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	TM 3	D
Profiad y Defnyddiwr	D	TM 3	D

**Safon 18**

	Aseiad AGIC 2006-07	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Hunanasesiad 2007- 08
Corfforaethol	D	TM 3	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	Ž	P
Profiad y Defnyddiwr	D	TM 3	D

**Safon 19**

	Aseiad AGIC 2006-07	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Hunanasesiad 2007- 08
Corfforaethol	D	TM 3	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	TM 3	D
Profiad y Defnyddiwr	D	TM 3	D

**Safon 29 - dilyswyd gan archwiliad mewnol**

	Aseiad AGIC 2006-07	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Hunanasesiad 2007- 08
Corfforaethol	P	$\frac{3}{4}$	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	TM 3	D
Profiad y Defnyddiwr	D	TM 3	D

**Safon 31 - dilyswyd gan archwiliad mewnol**



	Aseiad AGIC 2006-07	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Hunanasesiad 2007- 08
Corfforaethol	Amherthnasol		Amherthnasol
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	Amherthnasol		Amherthnasol
Profiad y Defnyddiwr	Amherthnasol		Amherthnasol

**Safon 32 - dilyswyd gan archwiliad mewnol**


	Aseiad AGIC 2006-07	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Hunanasesiad 2007- 08
Corfforaethol	D	TM 3	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	TM 3	D
Profiad y Defnyddiwr	R	$\frac{3}{4}$	D

## Crynodeb o Aeddfedrwydd yn ôl Lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr ar draws y deg safon graidd


Rydym yn cytuno ag 83% o'r sgorau ar gyfer y deg safon graidd yng nghyflwyniad 2007-08. Mae hyn yn uwch na'r llynedd pan oeddem yn cytuno â 56% o'r sgorau yn erbyn yr un safonau, gyda 4% ychwanegol o'r sgorau hynny yn cael eu marcio i fyny.




**Sgorau Aeddfedrwydd y Lefel Canlyniadau  
Gweithredol/Clinigol**



**Sgorau Aeddfedrwydd Lefel Profiad y Defnyddiwr**



**Cytuno/Anghytuno â Sgôr yr Ymddiriedolaeth ar draws y  
deg safon graidd**



## Y Safonau Gofal Iechyd i Gymru

### Maes 1: Profiad y Claf

**Safon 1:** Ceisir barn cleifion, defnyddwyr gwasanaeth, eu gofalwyr a'u perthnasau, a'r cyhoedd, ac fe'i hystyrir wrth lunio, cynllunio, darparu, adolygu a gwella'r gwasanaethau gofal iechyd ac wrth eu hintegreiddio â'r gwasanaethau gofal cymdeithasol.

**Safon 2:** Mae'r gwaith o gynllunio a darparu gofal iechyd:

- a. yn cyd-fynd â phrofiadau, safbwyntiau a dymuniadau cleifion a defnyddwyr gwasanaeth;
- b. yn bodloni anghenion iechyd y boblogaeth a wasanaethir;
- c. yn seiliedig ar dystiolaeth ac arferion gorau y cytunwyd arnynt yn genedlaethol;
- ch. yn sicrhau bod pawb yn cael yr un mynediad at wasanaethau.

**Safon 3:** Mae cleifion sydd ag anghenion iechyd brys yn cael mynediad at ofal priodol yn brydlon ac o fewn terfynau amser cenedlaethol a gaiff eu pennu'n flynyddol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

**Safon 4:** Caiff gofal iechyd ei ddarparu mewn lleoliadau priodol sydd wedi'u cynllunio'n dda er mwyn:

- a. hybu lles y cleifion a'r staff;
- b. parchu anghenion gwahanol gleifion, eu preifatrwydd a chyfrinachedd;
- c. ystyried diogelwch y cleifion, y defnyddwyr a'r staff;
- ch. darparu amgylchedd diogel sy'n amddiffyn y cleifion, y staff, yr ymwelwyr a'u heiddo, yn ogystal ag asedau ffisegol y sefydliad.

**Safon 5:** Mae gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn lleoliadau, sydd:

- a. yn cael eu cynnal a'u cadw at safonau glanweithdra sy'n dderbyniol yn genedlaethol;
- b. yn gostwng y perygl i gleifion, staff ac ymwelwyr o ddal heintiau cysylltiedig â gofal iechyd, gan leihau nifer yr achosion o flwyddyn i flwyddyn; ac
- c. yn pwysleisio safonau uchel o ran hylendid ac yn cydymffurfio â mentrau i annog arferion gorau.

**Safon 6:** Mae cyrff gofal iechyd, wrth gydnabod y gwahanol anghenion o ran cyfathrebu a'r gwahanol anghenion ieithyddol, corfforol a diwylliannol:

- a. yn sicrhau bod gwybodaeth am eu gwasanaethau ar gael i gleifion, defnyddwyr gwasanaeth, eu gofalwyr a'u perthnasau, a'r cyhoedd;
- b. yn rhoi gwybodaeth yn brydlon i gleifion a defnyddwyr gwasanaeth am eu cyflwr; y gofal a'r driniaeth y byddant yn eu cael yn ogystal â'r trefniadau ar gyfer darparu ôl-ofal a chymorth; ac

- c. yn rhoi cyfleoedd i gleifion a defnyddwyr gwasanaeth drafod a chytuno ar ddewisiadau yn ymwneud â'u gofal.

**Safon 7:** Mae cleifion a defnyddwyr gwasanaeth, gan gynnwys pobl ag afiechydon hirdymor, yn cael eu hannog i gyfrannu at eu cynlluniau gofal eu hunain ac yn cael cyfleoedd ac adnoddau i ddatblygu eu gallu i ofalu amdanynt eu hunain.

**Safon 8:** Mae cyrff gofal iechyd yn sicrhau:

- a. bod y staff yn trin cleifion, defnyddwyr gwasanaeth, eu perthnasau a'u gofalwyr ag urddas a pharch;
- b. bod y staff eu hunain yn cael eu trin ag urddas a chyda pharch i'r gwahaniaethau rhyngddynt;
- c. yr eir ati'n briodol i gael caniatâd bob amser cyn cysylltu â chleifion a defnyddwyr gwasanaeth a chyn defnyddio gwybodaeth gyfrinachol am gleifion; a
- ch. bod unrhyw wybodaeth am gleifion yn cael ei thrin yn gyfrinachol, ac eithrio pan fo deddfwriaeth yn caniatáu ei defnyddio.

**Safon 9:** Lle bydd bwyd yn cael ei ddarparu bydd systemau ar waith i sicrhau:

- a. bod cleifion a defnyddwyr y gwasanaeth yn cael dewis o fwydydd sydd wedi'u paratoi'n ddiogel ac sy'n sicrhau deiet cytbwys; a
- b. bod gofynion maeth, personol, diwylliannol a chlinigol y cleifion o ran deiet yn cael eu bodloni, gan gynnwys unrhyw gymorth sydd ei angen arnynt i fwyta, a sicrhau bod bwyd ar gael iddynt 24 awr y dydd.

**Safon 10:** Mae cyrff gofal iechyd yn sicrhau nad yw pobl sy'n derbyn gofal iechyd yn destun unrhyw wahaniaethu amlwg ar sail oed, rhyw, anabledd, ethnigrwydd, hil, crefydd, na thueddfryd rhywiol.

## **Maes 2: Canlyniadau Clinigol**

**Safon 11:** Mae cyrff gofal iechyd yn sicrhau:

- a. bod triniaethau a gofal clinigol yn cael eu darparu gan bobl broffesiynol ym maes gofal iechyd sy'n gwneud penderfyniadau clinigol ar sail tystiolaeth;
- b. y caiff triniaethau a gofal clinigol eu cynnal o dan oruchwyliaeth ac arweiniad staff clinigol priodol;
- c. bod clinigwyr yn parhau i ddiweddarau eu sgiliau a'r technegau sy'n berthnasol i'w gwaith, gan gynnwys adolygiadau cymheiriaid; a
- ch. bod clinigwyr yn archwilio ac yn adolygu'r gwasanaethau clinigol yn rheolaidd.

**Safon 12:** Mae cyrff gofal iechyd yn sicrhau bod cleifion a defnyddwyr y gwasanaeth yn cael triniaeth a gofal effeithiol sydd:

- a. yn cydymffurfio â gwerthusiadau technegol a gweithdrefnau ymyrryd y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol (NICE), ac argymhellion Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan

- (AWMSG);
- b. yn seiliedig ar ganllawiau ac arferion da y cytunwyd arnynt yn genedlaethol, fel y'u diffiniwyd yn y Fframweithiau Gwasanaeth Cenedlaethol, canllawiau clinigol NICE, y cynlluniau cenedlaethol a'r canllawiau ar ddarparu gwasanaethau y cytunwyd arnynt yn genedlaethol;
  - c. yn ystyried anghenion a dewisiadau corfforol, cymdeithasol, diwylliannol a seicolegol y cleifion; ac
  - ch. yn integredig er mwyn darparu gwasanaeth di-dor gan yr holl gyrff y mae angen iddynt fod yn rhan, gan gynnwys cyrff gofal cymdeithasol.

**Safon 13:** Mae gan gyrff gofal iechyd, sydd naill ai'n arwain neu'n cymryd rhan mewn gwaith ymchwil, systemau i sicrhau bod egwyddorion a gofynion y fframwaith llywodraethu ymchwil yn cael eu cymhwysu'n gyson.

### **Maes 3: Llywodraethu Gofal Iechyd**

**Safon 14:** Mae cyrff gofal iechyd yn mynd ati'n barhaus ac yn systematig i adolygu a gwella'r holl agweddau ar eu gweithgareddau sy'n effeithio'n uniongyrchol ar ddiogelwch ac iechyd y cleifion, defnyddwyr gwasanaeth, aelodau'r staff a'r cyhoedd. Byddant nid yn unig yn parchu'r ddeddfwriaeth, ond hefyd yn defnyddio arferion gorau wrth asesu a rheoli risg.

**Safon 15:** Mae cyrff gofal iechyd, gan gydnabod y gwahanol anghenion o ran iaith a chyfathrebu, yn sicrhau bod cleifion, defnyddwyr gwasanaeth, perthnasau a gofalwyr:

- a. yn cael rhoi adborth ar eu profiadau ac ar ansawdd y gwasanaethau;
- b. yn cael sicrwydd bod eu cwynion yn cael sylw prydlon a thrylwyr yn unol â'r weithdrefn gwynion;
- c. yn cael gwybodaeth am gymorth eiriolaeth ar gyfer cwynion a ddarperir gan Gynghorau Iechyd Cymunedol yng Nghymru; ac
- ch. yn cael sicrwydd bod y cyrff yn ymateb i unrhyw bryderon ac yn gwneud newidiadau priodol er mwyn gwella'r broses o ddarparu gwasanaethau.

**Safon 16:** Mae gan gyrff gofal iechyd systemau ar waith:

- a. i nodi pob digwyddiad yn ymwneud â diogelwch cleifion a digwyddiadau eraill y gellir eu cofnodi, a dysgu oddi wrthynt;
- b. i hysbysu am ddigwyddiadau i System Genedlaethol ar gyfer Adrodd a Dysgu'r Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion (NPSA) a chyrrff eraill, yn unol â'r canllawiau presennol;
- c. i ddangos eu bod wedi gwella eu harferion ar sail gwybodaeth a phrofiadau lleol a chenedlaethol a rennir sy'n deillio o'r dadansoddiad o ddigwyddiadau; ac
- ch. i sicrhau bod pobl yn gweithredu yn unol â hysbysiadau a rhybuddion diogelwch, a chyfathrebiaeth arall yn ymwneud â diogelwch cleifion, o fewn y terfynau amser gofynnol.

**Safon 17:** Mae cyrff gofal iechyd yn cydymffurfio â chanllawiau cenedlaethol ar amddiffyn plant ac oedolion agored i niwed wrth gynnal eu gweithgareddau eu hunain ac wrth ymwneud â chyrrff eraill.

**Safon 18:** Mae cyrff gofal iechyd wedi cynllunio a pharatoi, a gweithredu pan fo angen hynny, ymateb trefnedig i ddigwyddiadau ac argyfyngau a allai effeithio ar ddarpariaeth gwasanaethau arferol.

**Safon 19:** Mae cyrff gofal iechyd yn sicrhau:

- a. bod cyn lleied o beryglon â phosibl yn gysylltiedig â chaffael a defnyddio dyfeisiadau meddygol;
- b. bod dyfeisiadau meddygol aml dro'n cael eu diheintio'n briodol cyn eu defnyddio, a bod y peryglon sy'n gysylltiedig â'r cyfleusterau a'r prosesau diheintio yn cael eu rheoli'n effeithiol;
- c. bod materion yn ymwneud ag ansawdd a diogelwch meddyginiaethau'n cael eu rheoli; a
- ch. bod y gwaith o atal, gwahanu, trin, cludo a gwaredu gwastraff yn cael ei reoli fel bod cyn lleied â phosibl o beryglon i iechyd a diogelwch y staff, y cleifion a'r cyhoedd ac i'r amgylchedd.

**Safon 20:** Mae cyrff gofal iechyd yn gweithio i wella'r gofal ar gyfer cleifion a gwella boddhad y staff yn barhaus, drwy ddarparu arferion gorau o ran rheoli adnoddau dynol.

**Safon 21:** Mae cyrff gofal iechyd:

- a. yn cynnal yr holl gamau archwilio gofynnol ar gyfer cyflogaeth ac yn sicrhau bod yr holl staff cymwysedig, boed yn gyflogedig neu ar gontract, wedi eu cofrestru â'r cyrff perthnasol;
- b. yn gofyn i'r holl staff proffesiynol cyflogedig gydymffurfio â'u codau ymarfer ac ymddygiad proffesiynol; ac
- c. yn rhoi sylw, pan fo hynny'n briodol, i dangynrychioli o ran grwpiau ethnig.

**Safon 22:** Mae cyrff gofal iechyd yn sicrhau bod staff

- a. yn cael eu recriwtio'n briodol, eu bod wedi cael hyfforddiant priodol a bod ganddynt y cymwysterau priodol ar gyfer y gwaith;
- b. yn cymryd rhan mewn rhaglenni sefydlu a rhaglenni hyfforddi gorfodol; ac
- c. yn cymryd rhan mewn cynllun datblygu proffesiynol a galwedigaethol parhaus.

**Safon 23:** Mae cyrff gofal iechyd yn sicrhau bod staff yn cael eu cefnogi gan:

- a. brosesau sy'n caniatáu iddynt fynegi pryderon ynghylch unrhyw agwedd ar y broses ddarparu, y driniaeth ohonynt neu'r broses reoli, a hynny'n gyfrinachol a heb beryglu eu sefyllfa; a
- b. rhaglenni datblygiad sefydliadol a rhaglenni datblygiad personol sy'n cydnabod cyfraniad a gwerth y staff.

**Safon 24:** Mae cyrff gofal iechyd yn cydweithio â phartneriaid gofal cymdeithasol ac eraill i fodloni anghenion iechyd eu poblogaeth drwy:

- a. fod â gweithlu sy'n briodol o sefydledig ac sydd â'r gymysgedd briodol o sgiliau ym mhob rhan o'r gymuned; a
- b. sicrhau bod y gwasanaethau'n gwella'n barhaus drwy ddatblygu ffyrdd gwell o weithio.

**Safon 25:** Mae cyrff gofal iechyd yn defnyddio systemau gwybodaeth effeithiol a thechnoleg gwybodaeth integredig i gefnogi a gwella'r gofal ar gyfer cleifion, ac wrth gomisiynu a chynllunio gwasanaethau.

**Safon 26:** Mae gan gyrff gofal iechyd brosesau rheoli cofnodion effeithiol wedi'u sefydlu i sicrhau:

- a. bod y sefydliad, o'r funud y caiff cofnod ei greu nes iddo gael ei ddileu'n derfynol, yn cynnal y wybodaeth mewn modd sy'n ateb diben gwreiddiol ei chasglu, ac yn dileu'r wybodaeth yn briodol pan nad oes ei hangen arnynt mwyach; a
- b. bod gwybodaeth am gleifion yn cael ei chadw'n gyfrinachol.

**Safon 27:** Mae trefniadau llywodraethu sy'n cynrychioli arferion da wedi'u sefydlu sydd:

- a. yn cymhwyso egwyddorion llywodraethu corfforaethol a chlinigol cadarn;
- b. yn sicrhau rheoli ariannol cadarn, ac atebolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau;
- c. yn cefnogi'r holl staff yn ymarferol i hybu gonestrwydd, uniondeb, atebolrwydd a'r egwyddor o fod yn agored, ac i ddefnyddio adnoddau'n ddarvoudus, yn effeithlon ac yn effeithiol.
- ch. yn cynnwys asesiadau risg a rheoli risg mewn modd systematig; ac
- d. wedi eu hintegreiddio ar draws yr holl gymunedau iechyd a rhwydweithiau clinigol.

**Safon 28:** Mae cyrff gofal iechyd:

- a. yn sicrhau bod egwyddorion llywodraethu clinigol yn sail i waith pob tîm a phob gwasanaeth clinigol;
- b. yn gweithredu proses barhaus ar gyfer gwella ansawdd, gan gynnwys archwiliadau clinigol; ac
- c. yn sicrhau arweiniad ac atebolrwydd effeithiol gan y staff clinigol a'r rheolwyr.

#### **Maes 4: Iechyd y Cyhoedd**

**Safon 29:** Mae cyrff gofal iechyd yn hybu, amddiffyn a gwella iechyd y gymuned sy'n cael ei gwasanaethu mewn modd dangosol, ac yn lleihau anghydraddoldebau iechyd drwy:

- a. gydweithio a gweithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol ac asiantaethau eraill i ddatblygu, gweithredu a gwerthuso strategaethau iechyd, gofal cymdeithasol a lles; a
- b. sicrhau bod eu polisiau a'u harferion yn seiliedig ar asesiadau o angen a chyngor cadarn ar iechyd y cyhoedd

**Safon 30:** Mae cyrff gofal iechyd:

- a. yn rheoli rhaglenni systematig ar gyfer atal clefydon a hybu iechyd, sy'n cynnwys staff, sy'n bodloni gofynion y Fframweithiau Gwasanaeth Cenedlaethol, y cynlluniau cenedlaethol a'r blaenoriaethau o ran hybu iechyd ac atal clefydon; ac
- b. yn ystyried yr holl bolisiau cyfredol ac arfaethedig a'r wybodaeth am faterion iechyd y cyhoedd wrth ddatblygu rhaglenni iechyd y cyhoedd, rhaglenni hybu iechyd a gwasanaethau atal, ac wrth gomisiynu a darparu gwasanaethau.

**Safon 31:** Mae cyrff gofal iechyd:

- a. yn sicrhau bod cynlluniau ar waith i baratoi adnoddau ar gyfer amddiffyn y cyhoedd pe byddai digwyddiad sylweddol o glefyd heintus neu argyfwng iechyd arall yn digwydd;
- b. yn nodi ac yn gweithredu ynglŷn â phroblemau difrifol ym maes iechyd y cyhoedd a materion anghydraddoldebau iechyd, gyda'r Byrddau Iechyd Lleol yn arwain;
- c. yn gweithredu rhaglenni effeithiol i wella iechyd a lleihau anghydraddoldebau iechyd; ac yn amddiffyn eu poblogaethau rhag peryglon a nodwyd eisoes a pheryglon newydd i iechyd;
- ch. yn annog a chefnogi unigolion i gydnabod bod ganddynt gyfrifoldeb i edrych ar ôl eu hiechyd a'u lles eu hunain.

**Safon 32:** Mae cyrff gofal iechyd yn cyflawni'r Safon Iechyd Gorfforaethol, sef y nod ansawdd cenedlaethol ar gyfer iechyd yn y gweithle, ac yn symud i lefel uwch ar ôl cael ailasesiad.

### Rhestr Termau Allweddol

**Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan** – mae'n darparu cyngor i'r Gweinidog dros lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar reoli a rhagnodi meddyginiaethau'n strategol.

**cerdyn sgorio cytbwys** - system reoli sy'n darparu patrwm y gall sefydliad ei ddefnyddio i egluro ei weledigaeth a'i strategaeth a'u troi'n gamau gweithredu. Mae'n cynorthwyo gwelliant parhaus mewn perfformiad sefydliadol.

**Gwarcheidwad Caldicott** - uwch glinigwr ym mhob sefydliad y GIG sy'n gyfrifol am weithredu agweddau ar adroddiad Caldicott, a adolygodd y broses o ddiogelu a defnyddio gwybodaeth am gleifion.

**llwybr gofal** – cyfres o gamau trin a gofal a ddiffiniwyd sydd â'r nod o ddiwallu anghenion penodol pob claf.

**archwiliad clinigol** – gweithwyr iechyd proffesiynol yn gwerthuso a mesur pa mor dda maent yn bodloni safonau a bennwyd ar gyfer eu gwasanaethau.

**llywodraethu clinigol** - fframwaith sy'n gwneud sefydliadau'r GIG yn atebol am wella'n barhaus ansawdd eu gwasanaethau a diogelu safonau uchel o ofal.

**rhwydweithiau clinigol** – grŵp o wasanaethau sy'n gweithio gyda'i gilydd ar draws ffiniau sefydliadol i ddarparu gofal gwell i gleifion.

**canlyniad clinigol** – effaith triniaeth ar iechyd neu les unigolyn.

**Cyngor Iechyd Cymuned** – sefydliadau cymunedol nid er elw sy'n darparu gwasanaethau hybu iechyd, eiriolaeth iechyd a pholisïau iechyd. Sefydlwyd Cynghorau Iechyd Cymuned ym 1992 i gryfhau cyfranogiad y gymuned mewn diffinio polisi'r wladwriaeth a pholisi lleol sy'n effeithio ar fynediad at ofal iechyd a'i ansawdd. Mae Cynghorau Iechyd Cymuned yn cynrychioli lles y cyhoedd yn y GIG ac mae ganddynt hawl statudol i fod yn rhan o ymgynghoriadau ynglŷn â newidiadau iechyd yn eu hardal.

**Swyddfa Cofnodion Troseddol (SCT)** - asiantaeth weithredol a sefydlwyd i gynorthwyo sefydliadau i wneud penderfyniadau recriwtio mwy diogel trwy ddarparu mynediad ehangach at wybodaeth mewn cofnodion troseddol. Mae'r Swyddfa Cofnodion Troseddol yn cynorthwyo cyflogwyr yn y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol i nodi ymgeiswyr a allai fod yn anaddas ar gyfer gwaith penodol, yn enwedig gwaith sy'n cynnwys cysylltiad â phlant neu aelodau eraill o gymdeithas sy'n agored i niwed.

**diogelu data** – gofyniad i gyrrff cyhoeddus ac eraill weithredu'n gyfrifol wrth reoli data personol. Cwmpesir cyfrifoldebau o'r fath dan Ddeddf Diogelu Data 1984 a Deddf Camddefnyddio Cyfrifiaduron 1990, sydd â'r nod o ddiogelu data a gedwir am unigolion.

**Cynllun Oes** – mae'n nodi'r weledigaeth ar gyfer dyfodol gwasanaethau iechyd yng Nghymru ac mae wedi sefydlu strategaeth 10 mlynedd i wireddu hynny. Mae'r strategaeth yn cynnwys tri fframwaith strategol, gyda phob un ohonynt yn para oddeutu tair blynedd. Mae'r rhain yn cynnwys: Fframwaith 1 (2005-2008) Ailgynllunio Gofal Iechyd; Fframwaith 2 (2008-2011) Cyflawni Safonau Uwch a; Fframwaith 3 (2011-2014) Gwasanaethau o'r Radd Flaenaf.

**Safonau Gofal Iechyd** – fframwaith safonau gofal iechyd cyffredin a gyhoeddwyd ym mis Mai 2005 gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i gefnogi'r GIG a sefydliadau partner i ddarparu gwasanaethau effeithiol, prydlon ac o ansawdd da ym mhob lleoliad iechyd

**rheoli heintiau** – cyfres o weithdrefnau i atal heintiau rhag lledaenu, a fydd yn cynnwys, er enghraifft, golchi dwylo, defnyddio offer diheintiedig ac ati.

**Byrddau Iechyd Lleol (BILI)** - cyrff statudol sy'n gyfrifol am roi strategaethau ar waith i wella iechyd y boblogaeth leol, sicrhau a darparu gwasanaethau gofal iechyd sylfaenol a chymunedol a sicrhau gwasanaethau gofal eilaidd.

**Ymddiriedolaethau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG)** - cyrff hunanlywodraethol o fewn y GIG, sy'n darparu gwasanaethau gofal iechyd. Mae Ymddiriedolaethau'n cyflogi ystod lawn o weithiwr gofal iechyd proffesiynol gan gynnwys meddygon, nyrsys, dietegwyr, ffisiotherapyddion ac ati. Mae ymddiriedolaethau aciwt yn darparu gwasanaethau meddygol a llawfeddygol mewn ysbytai fel arfer. Mae ymddiriedolaethau cymunedol yn darparu gwasanaethau iechyd lleol, fel arfer yn y gymuned, e.e. nyrsys ardal, trinwyr traed, ac ati. Mae ymddiriedolaethau cyfun yn darparu gwasanaethau ymddiriedolaethau cymunedol ac aciwt dan un drefn reoli.

**Y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol (NICE)** - awdurdod iechyd arbennig sy'n cynhyrchu canllawiau i'r GIG a chleifion ar feddyginiaethau, offer meddygol a gweithdrefnau clinigol.

**Yr Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion (NPSA)** - awdurdod iechyd arbennig a grëwyd ym mis Gorffennaf 2001 i gydlynu ymdrechion y wlad gyfan i hysbysu am gamgymeriadau a phroblemau sy'n effeithio ar ddiogelwch claf ac, yn bwysicach, i ddysgu o'r camgymeriadau a'r problemau hyn.

**Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru (GICCC)** – mae'n darparu ystod lawn o wasanaethau iechyd cyhoeddus gan geisio: gwella iechyd a lles pobl Cymru a lleihau anghydraddoldeb ym maes iechyd; amddiffyn rhag afiechydon a bygythiadau iechyd sy'n bodoli eisoes yn ogystal â rhai newydd a'r rhai sy'n dod i'r amlwg; a chyfrannu at wella gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

**Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol (NSF)** – canllawiau i'r gwasanaeth iechyd ynghylch sut i reoli a thrin mathau arbennig o glefydau ac afiechydon.

**Cynnwys y Cleifion a'r Cyhoedd** – strategaeth a luniwyd i sicrhau yr ystyrir sylwadau a safbwyntiau cleifion, defnyddwyr gwasanaeth, gofalwyr a'r cyhoedd wrth gynllunio a darparu gwasanaethau.

**Rhaglen Arweinyddiaeth Glinigol Coleg Brenhinol y Nyrsys** – rhaglen sy'n rhoi amser wedi'i neilltuo i nyrsys er mwyn iddynt arsylwi gofal a'r ffordd y darperir gwasanaethau, a chyfweld cleifion ynglŷn â'r gofal a ddarperir. Ei bwriad yw galluogi nyrsys i ddatblygu a gwella eu gallu i arwain, gwella sgiliau tîm a threfnu, a chanolbwyntio ar anghenion cleifion.

**Datganiadau o Reolaeth Fewnol** - datganiad o drefniadau cyffredinol corff y GIG ar gyfer sicrhau bod y prif beryglon mewn sefydliad yn cael eu rheoli'n effeithiol.

**Bwrdd yr Ymddiriedolaeth** - grŵp o bobl sy'n gyfrifol yn ôl y statud am wneud penderfyniadau pwysig am strategaethau a pholisïau ym mhob Ymddiriedolaeth y GIG. Fel rheol, mae'n cynnwys cadeirydd lleyg, pump o aelodau lleyg, Prif Weithredwr a Chyfarwyddwyr Gweithredol yr Ymddiriedolaeth.

**Cronfa Risg Cymru** - cydgyllun hunan-sicrhau ar gyfer pob corff iechyd yng Nghymru. Mae hefyd yn cefnogi diogelwch cleifion a staff trwy annog a chefnogi perfformiad rheoli risg da ac asesu trwy fesur yn erbyn safonau penodol.